# Adroddiad Blynyddol
# y Bwrdd Monitro Annibynnol (IMB) yng Ngharchar Ei Fawrhydi Abertawe (Carchar Abertawe)

## Am y cyfnod adrodd
## 1 Tachwedd 2023 hyd 30 Ebrill 2025

Cyhoeddwyd Mawrth 2026

# Cynnwys


| **Adrannau rhagarweiniol 1-3** | | **Tudalen** |
|---|---|---|
| 1. | Rôl Statudol yr IMB | 3 |
| 2. | Disgrifiad o'r sefydliad | 4 |
| 3. | Pwyntiau allweddol | 5 |
| **Adrannau tystiolaeth 4 – 7** | | |
| 4. | Diogelwch | 11 |
| 5. | Triniaeth deg a dynol | 17 |
| 6. | Iechyd a llesiant | 23 |
| 7. | Symud ymlaen ac adsefydlu | 26 |
| **Gwaith yr IMB** | | |
| Ystadegau'r bwrdd | | 33 |
| Ceisiadau i'r IMB | | 33 |


**Cyhoeddir holl adroddiadau blynyddol yr IMB ar www.imb.org.uk**

# Sesiynau rhagarweiniol 1 – 3

## 1. Rôl statudol yr IMB

Mae Deddf Carchardai 1952 yn ei gwneud yn ofynnol i bob carchar gael ei fonitro gan fwrdd annibynnol a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, a hynny o aelodau o'r gymuned y mae'r carchar ynddi.

Dan y Fframwaith Monitro Cenedlaethol y cytunodd gweinidogion arno, mae'n ofynnol i'r Bwrdd:

- fodloni ei hun yng nghyswllt y driniaeth deg a dynol a ddangosir i'r rhai hynny yn nalfa'r carchar, ystod y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau ac a yw'r cyfryw raglenni'n ddigonol.
- Rhoi gwybod yn syth i'r Ysgrifennydd Gwladol neu i unrhyw swyddog y dirprwywyd awdurdod iddo fel y barno'n briodol, am unrhyw bryderon sydd ganddo
- adrodd yn flynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar sut y mae'r carchar wedi cwrdd â'r safonau a'r gofynion y gosodwyd arno a pha effaith y mae'r rhain yn ei chael ar y rhai hynny yn ei ddalfa.

Fel bod y Bwrdd yn ymgymryd â'r dyletswyddau hyn yn effeithiol, mae gan ei aelodau'r hawl i weld pob carcharor a mynd i bob rhan o'r carchar a, hefyd, weld cofnodion y carchar.

Cytuniad hawliau dynol rhyngwladol yw'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT) wedi'i gynllunio i gryfhau gwarchodaeth i bobl a gaiff eu hamddifadu o'u rhyddid. Mae'r protocol yn cydnabod fod y cyfryw bobl yn arbennig o fregus a'i nod yw eu hatal rhag cael eu cam-drin trwy sefydlu system o ymweliadau neu arolygiadau i'r holl fannau sy'n eu dal. Gwna OPCAT hi'n ofynnol fod gwledydd yn dynodi Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol i ymgymryd ag ymweliadau â mannau lle caiff carcharorion eu dal, monitro triniaeth y rhai a gaiff eu dal, a'u hamodau, a gwneud argymhellion i atal camdriniaeth. Mae'r IMB yn rhan o Fecanwaith Ataliol Cenedlaethol y Deyrnas Unedig

## 2. Disgrifiad o'r sefydliad

Adeiladwyd Carchar Abertawe yn 1861 ar gyfer 219 o garcharorion ac mae'n garchar categori B/C i oedolion gwrywaidd, ifanc a fel arall. Mae cymysgedd o garcharorion -risg uwch (categori B) a risg-is (categori C) yn y carchar, gyda chydbwysedd rhwng diogeledd ac adsefydlu.Nid yw strwythur y bloc preswyl wedi'i newid, er y bu gwaith moderneiddio ac uwchraddio arno. Ym mis Medi 2015, agorwyd adain newydd, adain G, gan ychwanegu 60 lle ychwanegol.

Cyn pandemig Covid-19, golygodd nifer gynyddol y carcharorion y gosodwyd y capasiti gweithredol (nifer uchaf y carcharorion y gellir eu dal heb beri risg ddifrifol i ddiogelwch, diogeledd, trefn dda ac i gynnal y drefn gynllunedig yn gywir) ar 475 [1]. Lle i un person mewn cell oedd yn y carchar yn wreiddiol ond, ar hyn o bryd, mae dau yn y rhan fwyaf o gelloedd.

Daw carcharorion i Garchar Abertawe o lysoedd rhanbarth de-orllewin Cymru, gan gynnwys y rhai hynny yn Abertawe, Merthyr Tudful, Llanelli, Caerfyrddin, Hwlffordd ac Aberystwyth.

[1]Gwybodaeth rheoli lleol yw'r ffigurau yn yr adroddiad hwn. Maent yn adlewyrchu sefyllfa'r carchar adeg yr adrodd ond gallent gael eu newid os ceir rhagor o ddilysrwydd ac, felly, mae'n bosib na fyddent wastad yn cyd-fynd ag Ystadegau Swyddogol a gyhoeddir yn hwyrach gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

# 3. Pwyntiau allweddol

## 3.1 Prif ganfyddiadau

### Diogelwch

- Barn y Bwrdd, o fonitro'r carcharorion a'r staff a chymysgu â nhw, yw bod carchar Abertawe, at ei gilydd, yn garchar diogel.
- Mae gan garchar Abertawe weithlu sefydlog ac, at ei gilydd, mae gan y charchorion a'r staff berthynas dda. Mae lefelau cyffredinol hunan-niweidio a thrais yn gymharol isel o'u cymharu â sefydliadau tebyg eraill ac mae systemau yn eu lle i hyrwyddo a chynnal diogelwch  a diogeledd yn y carchar.
- Bu pedair marwolaeth yn y ddalfa[2]yn ystod y cyfnod adrodd.Mae'r carchar wedi cymryd camau i roi sylw i argymhellion yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf gydag, er enghraifft, newidiadau i'r model adsefydlu i wella diogelwch carcharorion bregus a gânt eu rhyddhau
- Mae lefel gymharol isel o drais yng Ngharchar Abertawe a chaiff pob digwyddiad lle defnyddir grym ei adolygu at ddibenion craffu a dysgu ohono. Mae yna barhau i ganolbwyntio ar sicrhau y defnyddir camerâu fideo a wisgir ar y corff ac, yn arbennig, gynyddu'r defnydd a wneir o swyddogaeth cyn-cofnodi y camerâu hyn.
- O'r hyn a welsom, mae derbynfa carchar Abertawe yn ddiogel ac effeithiol er y ceir heriau gyda throsiant carcharorion a phwysau eu niferoedd.

### Triniaeth deg a dynol

- Mae heriau parhaus yn ystad carchar Abertawe sydd, gan fwyaf, yn un Fictoraidd. Mae rhaglen o ailwampio ac uwchraddio ar y gweill er bod yr arian sydd ar gael yn cael effaith ar gyflymder a maint y gwaith hwn. At ei gilydd, mae adeiladau a chyfleusterau'n lân a chânt eu cynnal yn dda er bod y rhan fwyaf o garcharorion yn byw dan amodau o orlenwi gan bod dau garcharor mewn cell a ddyluniwyd yn wreiddiol ar gyfer un.
- At ei gilydd, dylid canmol y ddarpariaeth arlwyo am ddarparu dewis da o brydau ar gyfer y carcharorion a nifer o ofynion crefyddol a deietegol ar gyllideb hynod dynn. Ym marn y Bwrdd, gallai rhoi sylw i anghysonderau mewn maint prydau ac, o bosib, adolygu amseroedd bwyta, roi fwy o gymorth o ran gwell maeth a chreu carcharorion mwy o bodlon.
- Bu gwelliant i'r model gweithio allweddol ac mae'r carchar yn cael yn nes at gyflawni targedau sesiynau gweithio allweddol.Fodd bynnag, os nad oes staff ar gael, gall hyn gael effaith ar gyrraedd targedau gweithio allweddol a parhau mae rhyw gymaint o amrywiaeth yn ansawdd cofnodion gweithio allweddol.
- O'r hyn a welsom, mae trefn yr uned gofal a gwahanu, lle cedwir rhai carcharorion oddi wrth weddill y carcharorion, at ei gilydd yn deg a diogel. Fodd bynnag, rydym yn bryderus ynghylch yr amser y mae rhai carcharorion ag anghenion iechyd meddwl sylweddol yn ei ddisgwyl i gael eu trosglwyddo i gyfleusterau cleifion mewnol iechyd meddwl.

---

[2]Mae marwolaethau yn y ddalfa'n cynnwys marwolaethau carcharorion sy'n digwydd yn y carchar a marwolaethau carcharorion a ryddhawyd yn ddiweddar - cyn pen 14 diwrnod i gael eu rhyddhau o'r carchar.

- Mae gan Garchar Abertawe ystod o wybodaeth wedi'i chyfieithu i'r carcharorion hynny nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Mae'r carchar wedi dechrau gwaith i ymestyn ystod y deunyddiau a'r ieithoedd a gyfieithir a gwella gwaith sefydlu carcharorion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Cynorthwyir cyfathrebu geiriol mewn sawl ffordd, ond gellid cael gwell ymwybyddiaeth o effaith y ffaith mai crap yn unig o'r Saesneg sydd gan rhai carcharorion unigol.
- Mae anghysondeb yn yr eitemau yn ymwneud â chrefydd sydd ar gael i garcharorion eu harchebu o gatalogau, sy'n ddibynnol ar gontractau cyflenwyr.
- Eiddo yw'r hyn y mae carcharorion yn parhau i gwyno yn ei gylch ers y tair blynedd diwethaf, gyda'r IMB yn parhau i dderbyn cwynion yn fynych am eiddo coll.

**Iechyd a Llesiant**

- Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd carcharorion yn gallu cael apwyntiadau i weld meddyg, deintydd ac optegydd, o fewn pedair i chwe wythnos at ei gilydd. Nid oes cyfleusterau cleifion mewnol yn y carchar ond roedd gwaith rheoli mynd i'r ysbyty i'w weld yn foddhaol.
- O'r hyn a welsom, mae'r adran gofal iechyd yn parhau i roi gwasanaeth dibynadwy, er gwaethaf llwyth gwaith a heriau staffio sylweddol, yn enwedig pan fo staff ar eu gwyliau neu i ffwrdd yn sâl.
- Mae'r Bwrdd yn parhau i fod yn bryderus fod nifer sylweddol o bobl â phroblemau iechyd meddwl yn mynd i garchar a bod y rhai hynny y mae angen gofal seiciatryddol fel cleifion mewnol arnynt yn aml iawn yn gorfod disgwyl am wely addas fel claf mewnol. Wrth ddisgwyl cael eu trosglwyddo, caiff llawer o'r carcharorion hyn eu hunain yn yr uned gofal a gwahanu, mewn cell gwylio cyson neu mewn cell dan amodau gwahanu.
- Y bwrdd iechyd lleol, trwy ei weithdrefn fewnol, sy'n ymdrin â'r holl gwynion sy'n gysylltiedig â gofal iechyd ac nid adroddir i'r IMB am y canlyniadau ac nid ydynt ar gael iddynt 'chwaith. Yn ein barn ni, mae hyn yn wendid difrifol yn eingallu i fonitro'r holl wasanaethau yn y carchar.

**Symud ymlaen ac Adsefydlu**

- Mae'r tîm addysg wedi gwneud gwelliannau i waith trefnu, cyflawni a rheoli'r gwasanaeth. Darperir cymorth i garcharorion ag anghenion addysgol ychwanegol gan y tîm niwroamrywiaeth, gyda'i gilydd, gyda sesiynau allgymorth i'r rhai hynny y mae'n anodd eu cyrraedd a charcharorion bregus na allent o bosibl, fel arall, gymryd rhan mewn rhaglenni dysgu. Mae'r llyfrgell wedi parhau i roi gwasanaeth rhagorol i garcharorion, ym marn y Bwrdd.
- Bu rhyw gymaint o welliant yn y nifer sy'n ymgymryd â gweithgarwch pwrpasol a'r data a ddaliwyd i helpu arweinyddion ddeall achosion absenoldeb carcharorion.
- Mae amlasiantaethau wedi cymryd rhan gadarnhaol mewn rhoi hyfforddiant a darpariaethau cadarnhaol ac mae'n cael effaith gadarnhaol ar garcharorion, yn ystod eu cyfnod yn y carchar a phan gânt eu rhyddhau.
- Mae'r tîm gostwng aildroseddu wedi ceisio sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i gyswllt teuluol. Ar y cyd â Thîm Gofal a Chyngor Carchardai (PACT), mae'r carchar yn cefnogi niger o gynlluniau i gynorthwyo teulueoedd a'u plant.

- Ymddengys fod prosesau adsefydlu wedi'u cryfhau, er bod canfod llety cynaliadwy pan gaiff carcharorion eu rhyddhau yn parhau i fod yn heriol iawn. Mae rhai awdurdodau lleol yn cynnal arbrawf gyda chynllun 'Gwario ac Arbed' i gynnal tenantiaethau i garcharorion ar ddedfryd.
- Mae cyflymder trosiant carcharorion yng Ngharchar Abertawe yn creu amgylchedd heriol wrth geisio ymdrechu i'r eithaf i ostwng achosion o aildroseddu a sicrhau y cyfeirir yn amserol at dai ac at y gymuned. Yn ôl yr hyn a welwn, mae Carchar Abertawe yn canolbwyntio ar ddatrys heriau ynghylch nifer y carcharorion yn y cyd-destun hwn.

### 3.2 Prif feysydd i'w datblygu

***I'R GWEINIDOG***

- Cedwir carcharorion ag anghenion iechyd meddwl sylweddol am gyfnodau hir, yn aml wedi'u gwahanu, tra eu bod yn disgwyl am ofal ysbyty arbenigol.O gofio yr ymddengys fod galw am ofal cleifion mewnol yn fwy na'r capasiti ar gyfer gofal iechyd, pa gamau wnaiff y Gweinidog eu cymryd iostwng gohiriadau, atal gwahanu carcharorion sy'n hynod sâl a sicrhau y cânt driniaeth iechyd meddwl cleifion mewnol briodol, a hynny'n amserol?
- Cyfyngir Carchar Abertawe gan ystad Fictoraidd lawn.Pa gamau fydd y Gweinidog yn ei gymryd i ostwng gorboblogi a gwella'r amgylchedd ffisegol, yn enwedig felly o ran dau garcharor yn rhannu cell sydd wedi'i bwriadu'n wreiddiol ar gyfer un?
- Yn dilyn yr Adolygiad Dedfrydu Annibynnol, pa ostyngiadau penodol yn nifer y carcharorion y mae'r Gweinidog yn eu disgwyl yng Ngharchar Abertawe a sut y bydd diwygiadau mewn dedfrydau'n rhoi sylw i'r pwysau parhaus a achosir gan drosiant uchel carcharorion a chyfnodau byrrach yn y ddalfa?

***I'R GWASANAETH CARCHARDAI***

- O gofio fod astudiaethau dichonolrwydd bellach wedi'u cwblhau, pa gyllid fydd ar gael yn 2025-2026 i uwchraddio'r system larwm tân y mae disgwyl hir wedi bod amdano a phryd bydd y gwaith yn dechrau?
- Pa gynlluniau ac amserlenni sydd yn eu lle i gyflwyno'r wybodaeth dechnolegol yng Ngharchar Abertawe sydd ei hangen i garcharorion allu gwneud ceisiadau ar lein ac, felly, ostwng dibyniaeth ar systemau papur a rhyddhau amser staff?
- Sut y rhoddir sylw i bryderon carcharorion ynghlych oedi gyda throsglwyddo neu golli eiddo rhwng carchardai gan fod hon yn gŵyn gyffredin wrth i garcharorion gael eu trosglwyddo?
- Sut y mae'r Gwasanaeth Carchardai'n sicrhau bod modd i garcharorion brynu eitemau rhagnodedig, yn cynnwys rhai sy'n ymwneud â chrefydd, ar draws contractau gwahanol gyflenwyr?

***I'R LLYWODRAETHWR***

- Pa gamau gaiff eu cymryd i ddadansoddi achosion sylfaenol problemau lle mae eiddo'n parhau i fod y prif gwynion, a rhoi sylw i hyn?
- Sut y byddir yn parhau i ganolbwyntio ar:

- Cyrraedd targedau sesiynau gweithio allweddol a safonau ansawdd cyson?
- Sicrhau y gwneir mwy o ddefnydd o gamerâu fideo a wisgir ar y corff ac, yn enwedig, y swyddogaeth cyn-cofnodi?
- Codi ymwybyddiaeth staff i effaith gallu cyfyngedig ar iaith a hyrwyddo The Big Word ar gyfer cyfieithu gwybodaeth bwysig neu sensitif?

- Os gwelir bod y cynllun 'Gwario ac Arbed' i gynnal tenantiaethau yn effeithiol, pa gynlluniau sydd yn eu lle i ymestyn y cynllun i bartneriaid awdurdodau lleol nad ydynt eto'n cymryd rhan?
- Yn ogystal â gweithredu ar ganfyddiadau arolygon arlwyo a geir ddwywaith y flwyddyn, pa sgôp sydd i adolygu rhestri prydau er mwyn gostwng bylchau anferth rhwng prydau a gwella bodlonrwydd carcharorion?
- Sut y bydd y Llywodraethwr yn sicrhau fod gan yr IMB fynediad cyson at raglenni cyfarfodydd a chofnodion y fforwm partneriaeth iechyd?

### 3.3 Ymateb i'r adroddiad blaenorol

Cododd y Bwrdd nifer o faterion i'w hystyried yn benodol yn ei adroddiad diwethaf, fel y crynhoir isod, ynghyd â'r ymatebion a chrynodeb o gynnydd.

| Mater a godwyd | Ymateb | Cynydd |
|---|---|---|
| **I'r Gweinidog**<br><br>Nifer y carcharorion sydd â phroblemau iechyd meddwl sylweddol ac sydd yn aml ar ddedfrydau tymor byr . | Mae tîm iechyd meddwl penodedig Carchar Abertawe yn hwyluso gwell cyfathrebu a chydweithio gyda gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol, gyda'r holl gyfeiriadau newydd ac anghenion y dynion a gaiff eu rhyddhau yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd wythnosol.<br><br>Mae Adolygiad Dedfrydu Annibynnol wedio'i lansio i edrych ar y defnydd a wneir o ddedfrydau carchar byr, a'u heffaith, ac i helpu i sicrhau fod fframweithiau dedfrydu'n gyson. Mae Carchar Abertawe hefyd yn gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr y Gwasanaeth Prawf i wella'r | Mae'r tîm iechyd meddwl wedi ymroi i gwrdd ag anghenion carcharorion ond mae nifer y staff a'r galw arnynt yn creu heriau. Mae nifer o garcharorion â phroblemau iechyd meddwl sylweddol yn wynebu cyfnodau hir o aros am wasanaethau cleifion mewnol neu wasanaethau iechyd meddwl arbenigol eraill ac, yn aml iawn, maent wedi'u gwahanu.<br><br>Cyhoeddwyd canfyddiadau ac argymhellion yr Adolygiad Dedfrydu Annibynnol ym Mai 2025 a chânt eu croesawu gan y Bwrdd. Mae Carchar Abertawe yn gweithio ar y cyd gydag asiantaethau |

| | | |
|---|---|---|
| | gefnogaeth a gaiff dynion sydd â dedfrydau byrrach. | partner ond mae'n dal i wynebu heriau o gyfnodau byr yn y ddalfa a throsiant cyflym yn nifer y carcharorion. |
| **I'r Gwasanaeth Carchardai**<br><br>Pryder ynghylch effeithlonrwydd Amey Projects a threfnidau dal i gyfrif. | Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS) wedi gwario oddeutu £10,000 ar waith ailwampio celloedd,a gwblhawyd ym Mai 2024, ac mae prosiect system rheoli mwg wrthi'n cael ei ddatblygu.<br><br>Mae trefniadau i ddal Amey Projects i gyfrif yn eu lle, gyda chosb ariannol bosibl pe na fyddai'r gwaith yn cael ei wneud yn unol â manylebau gofynnol. | Parhau i ddatblygu mae gwaith ailwampio celloedd, er bod cyflymder a maint y gwaith a wneir yn dibynnu ar faint o arian sydd ar gael. Mae'r astudiaethau dichonolrwydd ar uwchraddio'r system larwm tân wedi'u cwblhau. |
| **I Lywodraeth Cymru**<br><br>Mae llety wedi i'r carcharorion gael eu rhyddhau'n parhau'n broblem sylweddol. Mae'r Bwrdd yn glir iawn ei farn fod bod 'heb do dros eich pen' yn cyfrannu'n sylweddol at aildroseddu. | Mae'r HMPPS yn cefnogi cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru i ddod â digartrefedd i ben, gan ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar a chamau ymatal. Mae Awdurdod Lleol Abetawe wedi cynyddu nifer y lletyau dros dro i'r rhai sy'n gadael carchar ac mae cyntundeb grant newydd gyda Chastell-nedd Port Talbot wedi ymestyn mynediad at lety, trwy'r Gwasanaeth Llety Cymunedol Haen 3 (CAS3). At hyn, mae Carchar Abertawe'n gweithio gyda'r Gwasanaeth Adsefydlu a Gomisiynwyd (CRS) sy'n rhoi cymorth llety brys - i gynnal tenantiaethau ac atal digartrefedd i garcharorion ar remánd. | Mae'r carchar wedi gwneud newidiadau i'r model adsefydlu fel bod yr holl garcharorion sydd mewn perygl o fod yn ddigartref yn cael eu gweld cyn pen 72 awr i gyrraedd y ddalfa.<br><br>Arbrofir ar gynllun 'Gwario ac Arbed' i gadw tenantiaethau i garcharorion ar ddedfryd ond nid yw pob awdurdod lleol wedi cofrestru i gymryd rhan ynddo ar hyn o bryd. |

| **I'r Llywodraethwr** | | |
|---|---|---|
| Mae'r swyddogaethau addysg a gweithgareddau wedi bod mewn helbul yn ystod 2023. | Mae'r pennaeth dysgu a sgiliau yn gweithredu rhaglen o newidiadau. | Mae'r IMB yn nodi gwelliannau yn ymwneud ag addysg yn yr adroddiad hwn. |
| Ein gobaith yw y gellir trefnu [3]adolygiadau GOoD (trefn neu ddisgyblaeth dda)mewn ffordd y gall aelodau eu harsylwi. | Byddir yn sefydlu amser penodol ar gyfer adolygiadau GOoD. | Mae adolygiadau GOoD wedi'u rheoleiddio, fel ei bod yn haws i aelodau'r IMB arsylwi. |
| Pery problemau ynghylch TheBig Word a chamerâu fideo a wisgir ar y corff. Teimlad y Bwrdd yw bod angen defnyddio mwy ar y naill a'r llall. | Hyrwyddir y defnyddir a wneir o The Big Word i gynorthwyo gydag anghenion cyfieithu a chaiff y defnydd a wneir o gamerâu fideo a wisgir ar y corff ei fonitro (a'i hyrwyddo) trwy ddefnyddio adolygiadau panel yr heddlu. | Mae mwy o wybodaeth wedi'i chyfieithu ar gael ond mae angen parhau i hyrwyddo The Big Word. Wrth ddysgu o ddefnyddio adolygiadau panel yr heddlu, hyrwyddir gwaith defnyddio camerâu fideo a wisgir ar y corff a'u troi ymlaen yn gynnar. |

[3]Adolygiadau trefn neu ddisgyblaeth dda (GOoD) sy'n pennu a ddylai carcharor sydd wedi'i wahanu, oherwydd ymddygiad sy'n tarfu ar eraill, barhau i gael ei gadw ar wahân.

# Adrannau tystiolaeth 4 – 7

## 4. Diogelwch

### 4.1 Y Dderbynfa a sefydlu

4.1.1 Roedd perthynas y staff a'r carcharorion a sefydlwyd yn nerbynfa Carchar Abertawe i'w weld yn gadarnhaol i aelodau'r IMB oedd yn arsylwi'r gwaith sefydlu ac mae carcharorion a ddaw i'r carchar wedi dweud wrth nifer o aelodau'r IMB pa mor gyfeillgar a chymwynasgar ydi'r staff.

4.1.2 Mae pwysau nifer y carcharorion ar draws y carchar yn parhau i gael effaith ar Garchar Abertawe. Bu ychydig o gynnydd mewn lleoliadau y tu allan i'r ardal. Oherwydd ei bod yn cymryd yn hwy i gludo carcharorion o ganlyniad i hyn, gall hyn, ar brydiau, arwain at garcharorion yn cyrraedd y dderbynfa'n hwyr, gan greu heriau i staff y dderbynfa wrth iddynt gynnal llwybr 'o'r giât i'r gwely' ar adegau o'r fath. Mae'r llwybr yn cynnwys derbyn carcharor wrth y giât, cwblhau'r prosesau gofynnol yn y dderbynfa a symud y carcharor i leoliad ei gell noson gyntaf.

4.1.3 Wrth gyrraedd Carchar Abertawe ac wedi cadarnhau pwy ydyw, y warant neu ddogfennau eraill sy'n awdurdodi cadw'r carcharor newydd, dylai'r holl garcharorion newyd gael gweld gweithiwr proffesiynol gofal iechyd yn syth. Nodir anghenion meddygol wrth gyrraedd, gyda llwybr gofal addas yn cael ei roi ar waith yn ôl y gofyn. Mae gofyn cael asesiad risg o ran rannu cell (CSRA) cyn y neilltuir cell i garcharor a bydd staff yn cynnal cyfarfodydd adolygu CSRA yn wythnosol (gweler hefyd 5.1.3). Byddir yn chwilio ac yn catalogio eiddo carcharorion newydd a chânt un ai eu dychwelyd neu eu cadw yn y dderbynfa. Fel arfer, byddir yn archwilio carcharor sy'n cyrraedd y carchar neu sy'n dychwelyd i'r carchar ar ôl apwyntiad allanol, am eitemau wedi'u cuddio, yn unol â'r polisi (gweler adran 4.5 am ragor o fanylion). Mae'n nodweddiadol i garcharorion gael cynnig cawod, pryd a chael cymorth gan swyddogion y dderbynfa (carcharorion y gellir ymddiried ynddynt sy'n cymryd gwaith i roi gwasanaethau sy'n cyfrannu at gynnal y carchar)a Gwrandawyr (carcharoriona hyfforddir gan y Samariaid i roi cefnogaeth emosiynol a chyfrinachol i gyfoedion).

4.1.4 Mae modd i garcharorion gael siarad â Gwrandawyr wedi iddynt gyrraedd yn y dderbynfa a thrwy gydol eu hamser yn y carchar. Mae cynllun Gwrandawr y Samariaid, a gyflwynwyd am y tro cyntaf yng Ngharchar Abertawe yn 1991, yn parhau i fod yn llwyddiannus yn y carchar.Mae rota ar waith yn yr holl adeiniau i sicrhau fod y gwasanaeth ar gael 24 awr y dydd i unryhw un sy'n cael trafferth ymdopi neu sy'n meddwl lladd ei hun neu niweidio ei hun. Mae'n rhoi cefnogaeth emosiynol hyderus a phwysig i garcharion mewn angen.

4.1.5 Adain B yw 'adain y noson gyntaf' yng Ngharchar Abertawe a bydd carcharion sydd newydd eu sefydlu'n symud o'r dderbynfa i adain B, lle cânt gymorth gan y Rhai ar y Tu Mewn. Carcharorion yw'r rhain sydd wedi'u hyfforddi ym mholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad, sy'n gallu cynnig cefnogaeth i gymheiriaid yn ystod noson gyntaf (nosweithiau cyntaf) carcharor yn y carchar.

### 4.2 Hunanladdiad a hunan-niweidio, marwolaethau yn y ddalfa

**Marwolaethau yn y ddalfa**

4.2.1 Roedd pedair marwolaeth yn y ddalfa yn ystod y cyfnod adrodd.Digwyddod tair o'r rhain yn y gymuned (o fewn yr amser y mae'n ofynnol iddynt gael eu hystyried farwolaethau yn y ddalfa).Mae dwy o'r pedair marwolaeth'n parhau i gael eu harchwilio gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf (PPO)O'r herwydd, dim ond ar ddwy o'r pedair marwolaeth yn y ddalfa y gall yr IMB adrodd yn ystod y cyfnod adrodd. Mae argymhellion y PPO yn canolbwyntio ar gyfeirio'n amserol at y gymuned ac at dai, gydag un argymhelliad i Garchar Abertawe a dau i'r Gwasanaeth Prawf, fel y crynhoir isod.Ni ddatgelir enwau'r unigolion sydd wedi marw yn y ddalfa a chyfeirir atynt fel Mr A a Mr B.

### 4.2.2 Marwolaeth Mr A

4.2.2.1 Bu farw Mr A o gamdriniaeth alcohol gronig, gydag epilpsi, wedi iddo gael ei ryddhau o Garchar Abertawe ddeng niwrnod ynghynt. Ni chafodd ei gyfeirio gan y staff Prawf at y tîm alcohol a chyffuriau cymunedol a chollwyd cyfleoedd ganddynt i wneud hynny.Un argymhelliad wnaeth y PPO i bennaeth yr uned cyflawni prawf dros Ddyfed-Powys. Crynhoir isod yr argymhelliad ac ymateb y sefydliad.

| **Argymhelliad y PPO i bennaeth yr uned cyflawni prawf dros Ddyfed-Powys.**<br><br>*'Sicrhau y cwblheir cyfeiriadau priodol yn brydlon at y gwasanaethau cymunedol perthnasol pan nodir risg'.* | **Ymateb y carchar (Gwasanaeth Prawf):**<br><br>*Cynhaliwyd diwrnod o ddysgu ar gyfer ymarfer adsefydlu i'r holl ymarferwyr ar draws yr uned cyflawni prawf, oedd yn canolbwyntio ar bwysigrwydd cwblhau gwaith cyn-rhyddhau a chyfeiriadau angenrheidiol sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol a chyffuriau. Caiff ail ddiwrnod dysgu ei drefnu ar gyfer Mawrth 2025, fydd yn canolbwyntio ar bwysigrwydd gwaith cyn-rhyddhau. At hyn, byddir yn sefydlu cyfarfodydd tasgau cyn-rhyddau ar draws uned cyflawni prawf Dyfed-Powys i gynorthwyo ymarferwyr i gwblhau gwaith cyn-rhyddhau o safon uchel.'* |
|---|---|

### 4.2.3 Marwolaeth Mr B

4.2.3.1 Bu farw Mr B o wenwyn cyffuriau, wedi iddo gael ei ryddhau o garchar Abertawe bum diwrnod ynghynt.Roedd tîm adsefydlu'r carchar wedi cwblhau cyfeiriadau tai iddo bum diwrnod yn unig cyn iddo gael ei ryddhau. O ganlyniad i hyn, ychydig o amser oedd ar gael i sicrhau llety a rhyddhawyd Mr B yn ddigartref.

4.2.3.2 Nododd adroddiad y PPO fod*'y gofal camdrin sylweddau a gafwyd yn y carchar wedi'i gynllunio'n dda ac yn enghraifft o arfer da'*. Fodd bynnag, gwnaeth y PPO yr argymhellion a ganlyn mewn cysylltiad â thai, fel a nodir isod.

| **Argymhelliad y PPO i Lywodraethwr Carchar Abertawe**:<br><br>'Sicrhau*y caiff proses ei chreu i nodi carcharorion newydd sydd mewn perygl o fod yn ddigartref a bod y tîm* | **Ymateb y sefydliad (Carchar Abertawe):**<br><br>*'Mae'r model adsefydlu bellach yn sicrhau y caiff yr holl garcharorion sy'n cyrraedd Carchar Abertawe o'r newydd yn cael eu cyfweld gan staff adsefydlu cyn pen 72 awr iddynt gyrraedd. Mae statws y llety yn un o'r meysydd asesu allweddol a, lle bo rhaid, gwneir cyfeiriadau amserol at Forward Trust. Gwneir hyn un* |
|---|---|

| | |
|---|---|
| *adsefydlu yn eu gweld ar y cyfle cyntaf i wneud y gorau o'u cyfle i gael hyd i lety wedi iddynt gael eu rhyddhau'* | *ai'n uniongyrchol o'r tîm sefydlu, os yw'r unigolyn ar remánd, neu drwy staff prawf yn y gymuned ar gyfer y rhai hynny ar ddedfryd neu sydd wedi'u galw'n ôl.'*<br><br>Mae'r IMB yn deall fod y model hwn bellach ar waith. |
| **Argymhelliad y PPO i Gyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol dros Gastell-nedd Port Talbot**<br><br>'Sicrhau*fod yr holl ymarferwyr prawf yn ymwybodol o'r Dyletswydd i Gyfeirio Fframwaith Polisi a'u hatgoffa o'u cyfrifoldeb i gwblhau cyfeiriadau tai'*. | **Ymateb y sefydliad (Gwasanaeth Prawf):**<br><br>*Caiff hysbysiad i staff ei ddosbarthu i'r holl ymarferwyr prawf, fydd yn eu hatgoffa o gynnwys y Ddyletswydd i Gyfeirio Fframwaith Polisi a'u cyfrifoldeb i gwblhau cyfeiriadau tai. At hyn, bydd yr uwch-ymarferwyr prawf yn atgoffa ymarferwyr prawf hefyd o'u cyfrifoldeb yn ystod y cyfarfodydd tasgau .'* |

**Hunan-ladd a hunan-niweidio**

4.2.4 Roedd cynnydd cyffredinol mewn achosion o hunan-niweidio o 2023 i 2024 gyda chynnydd o 22 o ddigwyddiadau yr adroddwyd arnynt. Dangosodd y ffigur am 2024 y cyfanswm blynyddol uchaf hyd yn hyn, gan gyrraedd 180 o achosion. Ni wellhaodd y duedd rhwng Ionawr ac Ebrill 2025, pan gofnodwyd 80 achos o hunan-niweidio, er bod hyn yn parhau'n gymharol isel yng nghyd-destun ehangach sefydliadau tebyg. Bydd yr IMB yn parhau i fonitro hyn, gan gynnwys unrhyw gynlluniau a fwriedir â'r nod o ostwng achosion o hunan-niweidio ymhellach.

4.2.5 Yn seiliadig ar ein harsylwadau, ymddengys mai'r dull mwyaf cyffredin o hunan-niweidio yw defnyddio darn o ddeunydd wedi'i wneud i'r perwyl hwnnw. Mae gweithdrefnau yn eu lle i atal hyn trwy ddarparu cell a dillad gwelly nad oes modd eu troi'n ddulliau hunan-niweidio. Fodd bynnag, nid yw hyn yn atal carcharor penderfynol rhag ceisio niweidio'i hun.

4.2.6 Mae'r broses asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT) yn fesur ataliol allweddol i garcharorion sydd mewn perygl o ladd neu niweidio'u hunain. Mewn cyfarfodydd adolygu ACCT, bydd staff y carchar yn trafod lefel risg y carcharor, sut mae'n ymdopi ac a oes angen diweddaru ei gynllun gofal.Mae aelodau o'r IMB wedi gweld adolygiadau ACCT rheolaidd yn cael eu cofnodi mewn dyddiadur, yn ymwneud â'r carcharor ac aelod o'r tîm mewngymorth iechyd meddwl (ymhlith swyddogaethau cymorth eraill yn y carchar). O'r rhai hynny a gafodd eu monitro gan yr IMB, mae'r adolygiadau wedi'u cynnal gyda thosturi ac wrth ganolbwyntio ar y person. Caiff proses yr ACCT ei monitro gan y carchar a'i chynnwys mewn adroddiadau dyddiol i'r uwch-dîm arweinyddiaeth.

## 4.3 Trais a lleihau trais, hunanynysu

4.3.1 Mae lefel gyffredinol y digwyddiadau treisgar yng Ngharchar Abertawe yn gymharol isel o'u cymharu â charchardai eraill ac wedi dangos mymryn o ostyngiad yn ystod y cyfnod adrodd.Ym marn y Bwrdd, mae hyn, yn rhannol oherwydd natur nifer y carcharorion (dedfrydau byrrach a charcharorion lleol a rhai sy'n dychwelyd), yn ogystal â'i weithlu sefydlog, lle mae swyddogion yn aml yn adnabod y

carcharorion ac yn medru tynnu tân o sefyllfaoedd yn well. Fodd bynnag, cafwyd wyth ymosodiad difrifol lle ymosododd garcharor ar garcharor arall yn y cyfnod adrodd, o'i gymharu â phedwar yn y 18 mis blaenorol.Mae carchar yn codi'r holl ddigwyddiadau, gan fonitro'r amser, y lleoliad a'r rhesymau, i helpu i ddeall unrhyw broblemau neu batrymau cyffredin a gweithredu ar strategaethau ar gyfer gostwng (e.e. systemau, trefn neu roi sylw i ymddygiad unigol).

4.3.2 Defnyddir cynlluniau ymyrraeth, herio a chymorth (CSIP) yn erfyn gostwng trais i reoli a chefnogi carcharorion y nodir eu bod yn peri mwy o risg o drais. Mae CSIP yn canolbwyntio ar anghenion unigol i helpu carcharorion reoli eu hymddygiad treisgar a symud i ffwrdd oddi wrthynt.Mae CSIP yn rhan allweddol o ymdrechion i ostwng trais mewn carchardai. Yng Ngharchar Abertawe, adolygir cynlluniau CSIP gyda'r unigolyn ac mewn cyfarfodydd ymyrraeth diogelwch rheolaidd (SIM), gyda dull gweithredu amlddisgyblaethol clir yn ei le. O'n gwaith samplo ni o ddogfennau CSIP, ymddengys fod camau gweithredu a thargedau'n gymesur â'r risg a gofnodwyd.

4.3.3 Nid oes llawer o achosion o hunanynysu yng Ngharchar Abertawe. Mae carcharorion sy'n hunanynysu yn unigolion sydd wedi tynnu'n ôl o'r rhan fwyaf o'r drefn a/neu'n unigolion sy'n ymwneud fawr ddim â staff neu garcharorion eraill, gan dreulio'r rhan fwyaf o'u diwrnodau yn eu cell. Lle bu hynanynysu, mae aelodau'r IMB wedi gweld tystiolaeth yr adroddir arni mewn diweddariadau dyddiol, y caiff achosion unigol eu trafod mewn SIM ac yr ystyrir camau interim wrth i bryderon yr hunanynyswr gael sylw (e.e. creu amser i'r carcharor gael cawod pan nad oes neb arall yn bresennol).

## 4.4 Defnyddio grym

4.4.1 Yng Ngharchar Abertawe, fel ym mhob carchar, mae diwylliant carchar yn elfen bwysig iawn wrth leihau i'r effaith y defnydd a wneir o rym. Lefel gymharol isel o drais sydd yn y carchar ac mae'r IMB wedi arsylwi fod y berthynas rhwng carcharorion a staff, at ei gilydd, yn adeiladol (yn enwedig felly gan fod swyddogion sydd wedi gweithio yno'n am gyfnod hwy yn gwybod am nifer o'r carcharorion).

4.4.2 At ei gilydd, Mae gan Garchar Abertawe weithlu sefydlog a phrofiadol er bod, ar brydiau, adegau lle gallai diffyg profiad fod wedi cael effaith ar ganlyniad digwyddiad, ym marn y Bwrdd. Nid yw hyn wastad yn sgil diffyg profiad staff oherwydd eu bod yn newydd. Weithiau bydd hyn yn adlewyrchu profiad cyfyngedig mewn sefyllfaoedd na ddeuir ar eu traws yn aml yng Ngharchar Abertawe.Mae'r carchar yn adolygu digwyddiadau defnyddio grym mewn cyfarfodydd panel defnyddio grym a gynhelir yn wythnosol, a hynny ar gyfer dibenion craffu ac i nodi unrhyw bwyntiau dysgu. Mae'r dull gweithredu hwn wedi bod yn amlwg mewn cyfarfodydd a arsylwyd gan aelodau'r IMB.

4.4.3 Mae camerâu a wisgir ar y corff ar gael i'r holl swyddogion a chânt eu hannog i'w defnyddio, gan eu bod yn rhoi tystiolaeth bwysig pan geir digwyddiadau. Yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r panel defynddio grym wedi annog swyddogion i droi'r camerâu fideo hyn ymlaen yn gynt, yn cynnwys defnyddio'r swyddogaeth cyn-cofnodi.[4]. Dylai'r camerâu fideo hyn gael eu troi ymlaen i gofnodi'r cyfnod i fyny at

[4]Mae gan gamerâu fideo a wisgir ar y corff swyddogaeth cyn-cofnodi, felly bydd yr hyn a gofnodir 30 eiliad cyn i swyddog bwyso recordio hefyd yn cael ei gadw, fel bod modd dangos yn well yr hyn a ddigwyddodd i fyny at y digwyddiad.

ddefnyddio grym ac unrhyw ddefnydd a wneir o rym. Ni ddylid troi'r camera i ffwrdd hyd oni bydd yr unigolyn wedi'i symud o'r fan, bod y mater wedi'i ddatrys yn llawn ac y cynhelir cyfarfod briffio'n syth. Fodd bynnag, mae rhai carcharorion wedi cwyno nad yw swyddogion yn troi eu camerâu ymlaen, felly nid yw'r cyfleuster cyn-cofnodi ar gael. Mae rhai carcharorion hefyd wedi honni fod staff wedi gwaethygu sefyllfaoedd yn sgil gwrthdaro neu wrth ymateb yn rhy frwdfrydig ac na chaiff camerâu, weithiau, eu troi ymlaen hyd oni bydd carcharor yn colli ei dymer a bod y sefyllfa dambaid yn mynd cynddrwg bod angen rheoli ac ymatal y carcharor. Mae Cadeirydd yr IMB wedi dod â hyn i sylw'r Llywodraethwr a bydd yr IMB yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

4.4.4 Yn hwyr yn 2024, arsylwodd aelodau o IMB Abertawe arddangosiad o dechnegau defnyddio grym i ddeall yn well y dulliau a ddefnyddir i reoli ymddygiad heriol carcharor. Gall rhai o'r technegau ymddangos yn eithaf corfforol a gallent roi'r argraff honno pe caent eu gweld ar Gamerâu Cylch Cyfyng.Wrth arsylwi'r hyfforddiant, mae aelodau'r IMB wedi cael dealltwriaeth gliriach o pham y defnyddir dulliau penodol wrth reoli ymddygiad carcharor. Mae'r IMB yn parhau i fonitro sut mae'r carchar yn ymdrin â digwyddiadau defnyddio grym i sicrhau fod mesurau'n briodol ac nid yn ormodol.

4.4.5 Efallai y bydd angen symud unigolion trwy rym o amgylch carchar, megis i uned wahanu, a adwaenir hefyd fel yr uned gofal a gwahanu neu'r CSU. Ar yr ychydig achlysuron y mae aelodau'r IMB wedi arswyli'r cyfryw symudiadau, roedd y gofal a'r ymatal i'w gweld yn briodol ac yn gymesur ac roedd staff yn ceisio cynnal urddas y carcharor.

4.4.6 Roedd yr IMB yn bryderus a fyddai'r hyfforddiant yn y technegau gofal ac ymatal a gyflwynwyd yn raddol dros flwyddyn yn ôl yn creu problemau gyda defnyddio grym, hyd oni byddai'r holl staff wedi'u hyfforddi yn y technegau newydd hyn. Fodd bynnag, roedd hyfforddiant i'w weld yn cael ei gyflwyno'n gymharol gyflym gyda hyfforddwyr, bellach, yn cynnal hyfforddiant gloywi.

4.4.7 Mae'r IMB ar ddeall bod staff y carchar yn cynnal cyfarfod cydraddoldeb bob pythefnos, sy'n monitro i ganfod unrhyw rym anghymesur a ddefnyddir ar garcharorion â nodweddion gwarchodedig (yn cynnwys oed, hil, crefydd, rhyw, anabledd ac ailbennu rhywedd). Nid yw'r IMB yn ymwybodol o unrhyw duedd andwyol benodol yn hyn o beth.

4.4.8 Mae'r IMB yn derbyn y nodiadau gan y panel wythnosol defnyddio grym a'r grŵp chwarterol gwahanu, monitro ac adolygu (SMARG), sy'n fodd i ni adolygu digwyddiadau, y gwaith craffu a wneir ac unrhyw bwyntiau dysgu neu hyfforddi a godir. Erbod canllawiau monitro'r IBMyn datgan y dylai Byrddau gael eu hysbysu'n wythnosol o unrhyw ddigwyddiadau lle defnyddiwyd grym, ni fyddwn yn derbyn rhestri wythnosol o ddigwyddiadau i ni allu eu croesgyfeirio, er mai polisi'r carchar yw adolygu pob digwyddiad.

### 4.5 Atal eitemau anghyfreithlon

4.5.1 I atal eitemau anghyfreithlon rhag cael eu smyglo i mewn i'r carchar, mae'r carchar yn defnyddio
sganiwr cyrff pelydr-X, cadair BOSS (sganiwr diogelwch agorfeydd y corff) a chŵn gweithredol (ar ymweliadau ac i chwilio celloedd). Caiff carcharorion y ceir eu bod wedi cuddio eitemau y tu mewn iddynt, eu cadw ar wahân hyd oni bydd yr eitemau

wedi pasio trwy'u corff, fel a gadarneir gan sganiau pedydr-x dyddiol, er y gallai carcharorion wrthod y sganiau hyn.(gweler 5.2 am ragor o fanylion ynghylch gwahanu).

4.5.2 Caiff yr holl garcharorion gael sganio eu cyrff gyda phelydrau-x yn y dderbynfa. Y rheswm dros hyn yw bod y carchar wedi asesu mai'r dderbynfa yw'r fynedfa risg uchel mwyaf arwyddocaol ar gyfer sylweddau anghyfreithlon. Yn unol â'r polisi, mae, felly, wedi creu 'carfan' risg uchel o'r holl garcharorion newydd (neu'r rhai sy'n dychwelyd o gael eu galw'n ôl/o'r llys) trwy'r dderbynfa i gael sganio'u cyrff.Mae carcharorion wedi cwyno am orfod cael sganio'u cyrff trwy belydr-x gyda sawl carcharor yn honni iddo gael ei brofi'n bositif pan nad hynny oedd yr achos.

4.5.3 Yn gynnar yn 2025, nid oedd y sganiwr cyrff pelydr-x yn gweithio am dridiau wrth i iddo gael ei drwsio. Golygodd hyn y daliwyd rhai carcharorion ar wahân yn hwy nag y byddent fel arfer yr adeg hyn. Nid oedd y sefyllfa hon wedi codi o'r blaen a chafodd y sganiwr cyrff pelydr-x ei drwsio dan y contract cynnal a chadw ar y cyfle cyntaf.

4.5.4 Yn seiliedig ar dueddiadau data, mae'n ymddangos fod y trefniadau diogelu sydd yn eu lle i atal sylweddau anghyfreithlon rhag cael eu cludo i mewn i'r carchar, yn gweithio'n dda ac mae'r rhan fwyaf o'r achosion lle ceir hyd i eitemau anghyfreithlon ar garcharorion yn digwydd wrth iddynt gyrraedd y carchar.Yn sgil hyn, roedd 66% o garcharorion a gâi eu dal yn yr Uned Gofal a Gwahanu yn ystod y cyfnod adrodd ar wahân oherwydd bod y sganiwr cyrff yn bositif oherwydd bod eitem wedi'i chuddio.

4.5.5 Mae Fframwaith Diogelwch Cenedlaethol (NSF) yn ei le i i helpu carchardai nodi a gostwng risgiau diogelwch. Mae casgliad yr NFS o ganllawiau a dogfennau polisi yn llywio strategaeth diogelwch leol Carchar Abertawe. Mae gan Abertawe strategaeth gyffuriau leol yn ei lle hefyd.

4.5.6 Caiff timau chwilio penodedig, a drefnir mewn hybiau rhanbarthol, eu symud i Garchar Abertawe. Gweithredant ar ddeallusrwydd i atal a rhwystro bygythiadau posibl o anhrefn. Gweithia'r timau, sydd wedi'u hyfforddi'n arbenigol, gydag unedau cŵn chwilio a defnyddiant offer chwilio arbenigol eraill i oresgyn bygythiadau megis cyffuriau, dronau a ffonau symudol.

4.5.7 Cofnodwyd y cafwyd hyd i 435 o eitemau yn y carchar yn ystod y cyfnod adrodd, yn cynnwys cyffuriau, arfau, ffonau ac alcohol.

# 5. Triniaeth deg a dynol

## 5.1 Llety a bwyd

5.1.1 Er bod carchar Abertawe, at ei gilydd ,yn garchar fictoraidd, ymddengys fod adeiladau'n cael eu cynnnal yn gyffredinol dda. Cynhelir cyfarfod 'ystadau' gyda'r Llywodraethwr bob wythnos er mwyn codi materion cynnal a chadw yn brydlon ac y rhoddir sylw iddynt. Mae carcharorion sy'n gweithio fel glanhawyr adeiniau'n sicrhau bod safon glanweithdra'r adeiniau, yn cynnwys mannau cael cawod, yn gyson ac yn dda.

5.1.2 Dros nifer o flynyddoedd cafwyd rhaglen o ailwampio celloedd gydag adeiniau D ac F wedi'u cwblhau yn 2022 gan y tîm mewnol. Bu oedi gyda symud ymlaen gyda'r rhaglen ailwampio oherwydd i'r gwaith gael ei allanoli i Amey Projects ac i'r bid beidio â chael ei flaenoriaethu yn y flwyddyn adrodd. Mae arian wedi bod ar gael am y flwyddyn ariannol 2025-2026 i symud ymlaen gydag ailwampio celloedd adain A.

5.1.3 Er gwaethaf y gwelliant hyd yn hyn gydag uwchraddio'r celloedd, mae'r rhan fwyaf o garcharorion yn rhannu cell efo carcharor arall er fod y cell wedi'u chynllunio i un person.Mae penderfyniadau ynghylch rhannu cell yn seiliedig ar asesu risg, fel y nodir yn 4.1.3, gyda threfniadau yn eu lle i adolygu achosion yn wythnosol mewn cyfarfodydd CSRA.

5.1.4 Yn sgil astudiaethau dichonolrwydd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn adrodd, dylai cyllid fod ar gael ar gyfer uwchraddio'r system larwm tân, y mae disgwyl hir wedi bod amdani. Cynhelir diogelwch ar hyn o bryd trwy wirio paneli tân yn ddyddiol a chynnal profion larwm tân yn wythnosol ledled y carchar.

5.1.5 Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd oddeutu 28 o ddynion yn gweithio yn y gegin, a hynny trwy gydol yr wythnos. Bydd dynion sy'n gweithio yn y gegin ac wrth gownteri arlwyo'r adeiniau yn ennill cymhwyster Pasbort Bwyd a gydnabyddir gan y diwydiant. Rhoddodd yr elusen Clink i nifer o ddynion y cyfle i ennill cymhwyster NVQ (Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol) Lefel 1 neu 2 a'r gefnogaeth i gael hyd i waith pan gawsant eu rhyddhau. Yn anffodus, daeth cyllid Clink i ben ddiwedd Mawrth 2024. Mae uwch-staff y gegin yn edrych i mewn i raglenni eraill yn lle rhaglen Clink.

5.1.6 Caiff y bar 'byrbrydau' ei reoli gan yr elusen PACT (Ymddiriedolaeth Cynghori a Gofal mewn Carchardai), gyda'r gegin yn paratoi'r bwyd sydd ar werth yn y cyfleuster ymweld. Mae adborth carcharorion ac ymwelwyr yn parhau i fod yn hynod gadarnhaol, wrth hefyd ddarparu cyfleoedd gwaith i ychydig o garcharorion.

5.1.7 Ymwelodd yr IMB â'r gegin yn wythnosol trwy gydol y cyfnod adrodd, gan sgwrsio gyda dynion oedd yn paratoi'r bwyd, yn coginio ac yn ymgymryd â dyletswyddau eraill, yn cynnwys glanhau ac ymdrin â nwyddau stoc. Mae'r gegin yn lle prysur ond mae wedi ymddangos yn drefnus yn gyson, gyda safonau da o lendid a glanweithdra. Yn yr un modd, mae'r IMB yn arsylwi gwaith gweini'r bwyd ar adeiniau'n aml ac, unwaith eto, arsylwir safon dda o lanweithdra. Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau ffisegol strwythur carchar Fictoraidd, nid oes mannau bwyta cyffredin a rhaid i ddynion fwyta'u prydau mewn celloedd (a rennir, at ei gilydd).

5.1.8 Yn ystod y cyfnod adrodd, £2.90 y dydd, ar gyfartaledd, oedd y cyllid bwyd a neilltuiwyd i bob carcharor. Rhaid i unrhyw ddeiet arbennig ddod allan o'r gyllideb

honno. Ar unrhyw adeg, gallai deiet arbennig gynnwys carcharorion sydd ag anoddefiad i lactos, clefyd siwgr, clefyd celiac a gofynion crefyddol. Mae pum dewis ar y fwydlen cinio ganol dydd a chinio nos, yn cynnwys opsiwn llysieuol, fegan a halal. Yn ystod 2024, gosodwydsystem feddalwedd newydd, gan roi sylweddol fwy o wybodaeth i ddynion am brydau bwyd (yn cynnwys faint o galorïau oedd mewn bwyd a manylion alergeddau) a'i gwneud yn bosib iddynt wneud dewisiadau mwy cytbwys yngylch eu deiet.  Yn ystod y cyfnod adrodd, cyflwynwyd tua wyth bwydlen 'â thema', yn cynnwys gwledd Eid, gyda phopeth wedi'i hysbysebu ar y teledu yn y gell ac yn rhoi ychydig o amrywiaeth.

5.1.9 Mae carcharorion i'w gweld yn gyffredinol fodlon gyda'u prydau nos. Y prif adborth gan garcharorion yn ystod y cyfnod adrodd yw maint y prydau a'r amser bwyta. Mae'r gegin yn cynnal dau arolwg y flwyddyn a gwneir sylw am faint y prydau bob tro. O ran amser bwyta, oherwydd bod amser y cinio nos yn gynnar, mae bwlch hir tan brecwast, a gaiff ei ddarparu'r noson gynt fel dewis oer, gyda dognau cymharol fach o rawnfwyd.

## 5.2 Gwahanu

5.2.1 Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd ychydig dros 700 o garcharorion yn cael eu dal yn yr uned gofal a gwahanu (CSU). Roedd dros 66% o'r rhain yn cael eu dal dan y rheol trefn neu ddisgyblaeth dda (GOoD), oherwydd bod canlyniad eu sgan corff yn y dderbynfa yn bositif. Ar brydiau, Roedd nifer uchel canlyniadau positif y sganiau cyrff yn golygu y caiff rhai carcharorion eu dal ar wahân ar adeiniau eraill, yr adain noson gyntaf, yn bennaf (adain B).

5.2.2 At ei gilydd, mae carcharorion yn cael asesiad sgrinio iechyd cychwynnol cyn cael eu trosglwyddo i'r CSU a chynhelir cyfarfodydd cynllunio gadael unigol trwy gydol yr wythnos. Caiff y rhan fwyaf o garcharorion sydd ar wahân eu dal dan y rheol GOoD, gyda niferoed isel yn cael eu cadw yn y gell yn dilyn dyfarfniadau (gwrandawiadau disgyblu pan honnir fod carcharor wedi torri rheolau'r carchar).

5.2.3 Er nad yw carcharorion a gaiff eu gwahanu yn adrodd y cafwyd problemau mawr, pryder a godir dro ar ôl tro gyda'r IMB oedd colli eiddo personol, yn amlach na pheidio wrth iddynt gael eu trosglwyddo o gelloedd adeiniau - rhywbeth oedd yn peri rhwystredigaeth.

5.2.4 Mae'r IMB yn parhau i fynegi pryder ynghych hyd y cyfnod y gall carcharorion ei dreulio yn y CSU wrth ddisgwyl cael eu trosglwyddo i gyfleusterau iechyd meddwl arbenigol. Yn ystod y cyfnod adrodd, treuliodd un carcharor dros 80 diwrnod (dros ddau gyfnod estynedig) yn disgwyl cael ei drosglwyddo i ysbyty iechyd meddwl. Er edrych ar wahanu fel y dewis llai niweidiol, mae pryderon yn parhau ynghylch ei effaith ar unigolion sydd ag anghenion iechyd meddwl difrifol a chymhleth. Er y bydd gan y mathau hyn o garcharorion fynediad at y tîm mewngymorth iechyd meddwl, y swyddogion ar yr adain sy'n eu rheoli o ddydd i ddydd.  Er bod gan swyddogion ystod o sgiliau i ymdrin ag ymddygiad heriol, nid ydynt wedi'u hyfforddi'n benodol i ymdrin â'r mathau o ymddygiadau a ddangosir gan garcharor sy'n feddyliol sâl.

5.2.5 Dengys arsylwadau'r IMB drwy gydol y cyfnod adrodd fod y CSU, at ei gilydd, yn gyfundrefn deg a diogel. Ar brydiau, ymddengys bod hyn yn gyfyngedig braidd, heb weithgaredd pwrpasol, yn arbennig i ddynion a allai fod yn treulio cyfnodau estynedig o amser ar wahân. Ymddengys bod digon o staff yn yr uned, gyda swyddogion yn gofalu am y CSU ac adain C, gyda mwy o garcharorion bregus yn yr

olaf. Yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r gwaith rhoi gwybod am ddynion a drosglwyddir i'r CSU wedi bod yn anghyson. Yn yr un modd, mae hysbysiadau o adolygiadau GOoD (sy'n gwirio ei bod dal yn angenrheidiol, priodol gyfreithlon a chymesur i gadw rhywun ar wahân ) wedi cael effaith ar allu'r Bwrdd i arsylwi'r olaf, er y sefydlwyd, bellach, amseru cyson am adolygiadau GOoD.

### 5.3 Perthynas staff a charcharorion, gweithwyr allweddol

5.3.1 Fel y sonnir yn rhywle arall yn yr adroddiad hwn, mae Carchar Abertawe yn parhau i fod â gweithlu sefydlog, gyda throsiant cymharol isel o staff. Yn hanesyddol, mae absenoldeb salwch wedi bod yn gymharol isel hefyd, er bod salwch wedi bod uwchben y targed naw diwrnod am 13 o'r 18 mis yn y cyfnod adrodd. Er bod cyfartaledd y cyfraddau salwch yn 10.8 diwrnod, mae'r cyfraddau wedi aros uwchlaw'r targed ers mis Medi 2024, gan fod ar eu huchaf ar 17.43 ym Mawrth 2025.

5.3.2 At ei gilydd, arsylwir bod y cyfathrebu rhwng staff a charcharorion yn gadarnhaol a golyga cyfraddau aildroseddu y bydd staff, yn aml, yn adnabod carcharorion o ddedfrydau blaenorol. Fodd bynnag, gwneir holl geisiadau ffurfiol a cheisiadau arferol carcharorion ar bapur, gan ddefnyddio amrywiaeth o wahanol ffurflenni. Mae'r carchar wedi'i wifrio i gefnogi gwaith cyflwyno darpariaeth hunanwasanaeth ddigidol carcharorion; rhywbeth a fyddai'n cyflymu prosesau i garcharorion a gostwng amser a dreulia staff ar waith gweinyddol. Nid oes cyllid ar gael hyd yn hyn i gyflwyno'r gwaith technegol.

5.3.3 Mae ym mhob adain gynrychiolwyr carcharorion a ddaw â materion i gyfarfodydd ymgynghorol yr adain a gynhelir bob pythefnos. Caiff pwyllgor ymgynghori misol â'r carcharorion ei gadeirio gan bennaeth y gwasanaethau preswyl. Bwriad yr olafyn bennaf yw gwahodd, casglu a thrafod syniadau i wella'r carchar a'i wneud yn lle gwell. Mae'r ddau gynllun hyn yn fforwm i godi materion sy'n atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu. Mae'r Bwrdd wedi clywed carcharorion yn dweud eu bod yn gwerthfawrogi'r fforymau hyn.

5.3.4 Neilltuiwyd gweithiwr allweddol i sylweddol lai o garcharorion yn ystod y cyfnod adrodd, yn bennaf oherwydd newidiadau yn y meini prawf neilltuo (a drafodir ymhellach yn 5.3.5). Dangosodd ciplun chwe mis, rhwng Tachwedd 2022 ac Ebrill 2023 y cynhaliwyd dros 2,000 o sesiynau, o'i gymharu ag ychydig dan 700 yn ystod yr un cyfnod yn 2023-2024. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod pum mis rhwng Tachwedd 2023 ac Ebrill 2024, unwaith yn unig y bodlonwyd targedau (a'u pasio) gyda chyfraddau cwblhau yn syrthio 59% ar dri achlysur.

5.3.5 Bwriad y model tair haen ar gyfer neilltuo gweithwyr allweddol yw canolbwyntio ar y rhai hynny sydd â'r angen mwyaf a defnyddio amser swyddogion yn effeithiol. Mae Lefel 1 yn rhoi cymorth wythnosol i'r rhai hynny â lefel uchel o angen; cymorth a neulltuir, ar gyfartaledd, i 15 carcharor yn unig. Mae Lefel 2 yn rhoi cymorth bob pythefnos o leiaf ac yn cynnwys grwpiau blaenoriaeth a'r rhai hynny sy'n destun Choices for Change a chynigir Lefel 3, i garcharorion a ystyrir yn garcharorion profiadol ag anghenion cyfyngedig, gan ddibynnu ar lefelau staffio neu ar gais y carcharor. Er bod y model sy'n blaenoriaethu'r rhai hynny gyda'r anghenion mwyaf yn amlwg wedi gostwng galwadau ar amser swyddogion, nid yw, o reidrwydd wedi arwain at fodloni'r perfformiad disgwyliedig.

5.3.6 Er mwyn rhoi sylw i faterion ynghylch gweithio allweddol, o Hydref 2024, mae gweithio allweddol wedi dod dan reolaeth pennaeth y gwasanaethau preswyl, gyda rheolwyr y ddalfa'n gyfrifol am ei reoli o ddydd i ddydd. Mae hyn wedi golygu llawer mwy o atebolrwydd. Mae lle i wella o hyd. Dangosodd adroddiad misol a luniwyd gan y Llywodraethwr arweiniol yn Ebrill 2025gyfradd cwblhau sesiwn yn ystod y cyfnod hwnnw o ychydig dros 79% ar gyfartaledd. Roedd amrywiaethau sylweddol, yn bennaf oherwydd staff yn manylu ar faterion, gofynion adleoli a gweithredol, megis asesiadau ACCT a dyletswyddau gwylio cyson. Fodd bynnag, mae mesurau yn eu lle i barhau gyda'r duedd at i fyny a chyflwynir data perfformiad gwaith allweddol yn feunyddiol i'r uwch-dîm rheoli, gan roi proffil uwch i'r gwaith.

5.3.7 Nid yw'r IMB wedi derbyn ceisiadau (sylwadau ysgrifenedig carcharorion) ynghylch sesiynau gweithwyr allweddol/gweithio allanol ac mae'n bwnc y mae'n debygol y caiff ei godi gan yr IMB mewn sgwrs yn hytrach nag un a godir gan garcharorion. Mae modd gweld nodiadau sesiynau ac mae'n glir fod ansawdd y cofnodi'n amrywio ymhlith swyddogion. Mae arweiniad clir ar gael i staff ar y meysydd y mae angen ymdrin â nhw a'r hyn y dylid eu cynnwys mewn adroddiadau gwaith allweddol ond mae dal lle i wella.

## 5.4 Cydraddoldeb ac amrywiaeth

5.4.1 Mae cyfarfodydd cyfraddoldeb, a gynhelir yn fisol ar ddechrau'r cyfnod adrodd, wedi newid i fod yn rhai a gynhelir bob dau fis ond bydd ystod o swyddogion yn parhau i fynd iddynt a chânt eu cadeirio gan aelod o'r tîm arweinyddiaeth. Ceir arweinydd-reolwr (rheolwr y ddalfa neu Lywodraethwr) ar gyfer pob grŵp nodwedd warchodedig. Mae nifer fawr o ddata'n parhau i gael ei chasglu a'i chyflwyno yn y cyfarfodydd hyn, yn cynnwys canlyniadau ar gyfer grwpiau gwarchodedig ar draws meysydd megis defnyddio grym, gwahanu, dyfarniadau, adrodd ar ddigwyddiadau gwahaniaethu, charcharor sy'n wladolyn tramor, cyflogaeth ac LHDTC+ ac ati. Nododd y Bwrdd fod y data hyn yn cael eu craffu'n gritigol ac y tynnir sylw at feysydd o bryder. Ymdrinnir â chamau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol ar ddechrau bob sesiwn ac, at ei gilydd, arsylwir eu bod wedi'u cwblhau'n effeithiol.

5.4.2 Ar gyfartaledd dros y cyfnod adrodd, roedd oddeutu 18% o garcharorion o gefndir lleiafrif ethnig. O ran canlyniadau i garcharorion yn y grŵp hwn, nododd y Bwrdd nad oes anghymesuredd cyson wedi bod mewn meysydd a nodir uchod (e.e. defnyddio grym, gwahanu, dyfarniadau ac ati) a fyddai'n codi pryderon, er y bu ychydig o fân amrywiadau.

5.4.3 Bu ychydig o fân amrywiadau pob mis yn nifer y carcharorion oedd yn wladolion tramor, gyda 62 yn cael eu cofnodi yn Nhachwedd 2023 o'i gymharu â 52 ym Mehefin 2024 a mymryn o gynnydd cyffredinol ar y cyfnod adrodd blaenorol. Yn ystod y cyfnod adolygu. cynhaliodd yr IMB, hefyd, arolwg byr i ganfod a oedd rhwystrau iaith yn cael effaith ar iechyd, adsefydlu neu ganlyniadau eraill. Cymerodd cyfanswm o 12 carcharor ac wyth swyddog ran yn yr arolwg.

5.4.4 Rhoddir i garcharorion sy'n wladolion tramor ac nad Saesneg yw eu mamiaith, wybodaeth ysgrifenedig wrth iddynt gyrraedd, er bod ystod yr ieithoedd sydd ar gael yn dal i ddatblygu.Hunanasesodd y carcharorion, a arolygwyd, eu sgiliau iaith fel rhesymol ar gyfer sgwrs gyffredinol ond, yn aml, ni roddir gwybod iddynt y gallant ofyn am gymorth gwasanaethau iaith arbeniogol megis, er enghraifft, gwasanaethau sy'n ymwneud â materion meddygol neu gyfreithiol.

5.4.5 Ceisia staff yr adeiniau roi siaradwyr yr un iaith gyda'i gilydd lle bo modd a chael cyfieithu cardiau i gynorthwyo gyda gwybodaeth am y gyfundrefn gyffredinol.Mae rhaglen o waith ar y gweill i gyfieithu ystod ehangach o wybodaeth a gwella sesiynau sefydlu ac asesiadau addysgol ar gyfer carcharorion nad ydynt yn siarad Saeasneg (gweler 7.1.9 am fanylion).

5.4.6 Ymddengys nad yw The Big Word, y teclyn cyfieithu swyddogol yn cael ei ddefnyddio fawr ddim gan ei fod yn defnyddio llawer o amser y swyddogion, felly, maent yn syrthio'n ôl ar garcharorion sy'n fwy rhugl i gynorthwyo. Nid yw hyn yn ddelfrydol o ran gwybodaeth breifat am iechyd, . Fel y nodwyd mewn adroddiadau blynyddol blaenorol, byddai o gymorth i gael gwared â'r anghydraddoldeb hyn pe ceid mwy o ymwybyddiaeth o effaith gallu cyfyngedig ar iaith ac anogaeth i ddefnyddio The Big Word am wybodaeth bwysig, megis yr hyn sy'n gysylltiedig ag iechyd a chanlyniadau eraill.

O ran y Gymraeg, mae deunydd dwyieithog ar gael ac mae gan y carchar restr o staff Cymraeg eu hiaith i gynorthwyo'r rhai hynny sy'n dymuno sgwrsio yn Gymraeg.

### 5.5 Ffydd a chefnogeth fugeiliol

5.5.1 Mae adran y gaplaniaeth yn parhau i gynnig gweithgareddau sy'n gysylltiedig â ffydd a gwasanaethau sy'n cwrdd â gofynion y rhan fwyaf o garcharorion sy'n dymuno'u defnyddio.Dywed carcharorion fod staff y gaplaniaeth yn eu trin ag urddas a pharch ac maent yn arbennig o hapus gyda lefel y brwdfrydedd, yr ystyriant sy'n symbylu.

5.5.2 Ymddengys bod gwahaniaeth rhwng eitemau sydd ar gael i garcharorion Cristnogol a'r rhai sydd ar gael i garcharorion Mwslemaidd, er gwaethaf arweiniad clir yn y PSI (Cyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Carchardai)05/2016 (Gofal Ffydd a Bugeiliol). O degwch a pharch, dylai gleiniau gweddi, er enghraifft, fod ar gael ar gontract cyflenwyr y ffreutur. Mae diffyg ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chrefyddol ymhlith rhai swyddogion yn amlwg, yn yr ystyr nad oes dealltwriaeth o bwysigrwydd eitemau crefyddol penodol.

### 5.6 Cwynion

5.6.1 Mae'r hwb busnes yn cadw golwg ar yr holl gwynion a'r amseroedd ymateb perthnasol ac yn rhoi dasansoddiad misol a chynhwysfawr o ddata cwynion. Mae hyn yn cynnwys niferoedd y cwynion a dderbynnir gan bob adain, yr hyn y cwynir yn ei gylch, ethnigrwydd y cwynion, meysydd ymateb y cwynion a niferoedd a meysydd ymatebion hwyr. Tynnir sylw at y tri phrif maes cwynion a gellir ei cymharu mis wrth fis a blwyddyn wrth flwyddyn. Sicrheir fod y wybodaeth hon ar gael i'r IMB ei chraffu.

5.6.2 Yn ystod 2024, roedd 507 o gwynion cam 1 (arferol) a 47 o gwynion cam 1a (apeliadau), gyda 92% yn cael ymateb o fewn amserlen y polisi. Dyma oedd y tri phrif gategori cwynion yn ystod y cyfnod hwnnw:

- Eiddo
- Eraill (yn eu plith, amrywiol faterion nad ymdrinnir â nhw dan gategorïau cwynion eraill, megis trefn a chawodydd ddim yn gweithio).
- Apeliadau yn erbyn cyrffyw cyfyngu i'r cartref.

5.6.3 Adolygwyd y gronfa ddata ar gyfer 2025 i gynnwys ystod ehangach o benawdau pwnc, gan helpu i ddadansoddi cwynion yn fwy effeithiol a chynorthwyo

dadansoddiad cywirach.Rhwng Ionawr ac Ebrill 2025, cafwyd 205 o gwynion cam 1 a 18 o gwynion cam 1a, ac ymatebwyd i 89% ohonynt o fewn yr amser.Roedd apeliadau ynghylch eiddo a chyrffyw cyfyngu i'r cartref yn dal yn y tri phrif gategori cwynion ond daeth llythyrau a sensoriaid yr ail gategori uchaf yn y cyfnod hwn. Er nad yw'r IMB wedi derbyn llawer o geisiadau ynghylch llythyrau a sensoriaid, dengys y rhai a dderbyniwyd fod carcharorion yn rhwystredig oherwydd oedi gyda'r post neu bost coll. Mae hyn yn bryder ar gyfer cynnal cyswllt teuluol a sicrhau y derbynnir gwaith papur cyfreithiol pwysig yn brydlon.

5.6.4 Mae eiddo wedi parhau i fod y brif maes cwyno i'r carchar am y tair blynedd ddiwethaf ac mae'r IMB, hefyd, yn derbyn cwynion mynych ynghylch eiddo coll.Gall problemau godi pan anfonir dillad ac eiddo gwerthfawr gyda charcharorion pan gânt eu trosglwyddo neu pan fyddir yn clirio celloedd (dros dro neu fel arall). Mae problem hefyd i garcharorion a drosglwyddir o garchardai neu lysoedd eraill lle nad yw eiddo'n dilyn y carcharor. Mae gofyn wrth ymatebion allanol ar gyfer rhai o'r cwynion hyn.

5.6.5 Yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r IMB wedi cymryd sampl o waith papur ynghylch cwynion, gan ganolbwyntio ar ansawdd yr ymatebion a roddir i garcharorion. Mewn rhai achosion, cafwyd nad oedd ymatebion yn ddigonol neu nid oeddynt yn rhoi sylw llawn i'r materion a godwyd gan y carcharor. Bydd aelodau'r IMB yn parhau i gymryd samplau fel rhan o'i ymarfer monitro. Mae adolygu gwaith papur ynghylch cwynion cam 1 y carchar, lle mae carcharorion wedi gwneud cais i'r IMB a datgan eu bod wedi cwyno'n flaenorol wrth y carchar, yn arfer safonol wrth gyfeirio'u cais i'r IMB ac yn rhoi cyfle arall i graffu ansawdd yr ymatebion.

## 6. Iechyd a llesiant

### 6.1 Gofal iechyd cyffredinol

6.1.1 Mae gwasanaethau gofal iechyd yn parhau i gael eu ddarparu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Darperir gwasanaethau deintyddol trwy gontract gyda Time for Teeth a gwasanaethau optometreg gan The Prison Opticians Trust.Bellach, darperir y gwasanaeth ffisiotherapi gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe mewn sesiynau wythnosol.

6.1.2 Mae'r tîm gofal iechyd yn parhau i gynnal cysylltiadau cryf gyda gwasanaethau iechyd meddwl, nyrs allgymorth y person bregus a'r meddygon ym meddygfa'r stryd fawr yn Abertawe - meddygfa y bydd carcharorion nad oes ganddynt gyfeiriad sefydlog yn mynd iddi pan gânt eu rhyddhau.

6.1.3 Mae modd defnyddio gwasanaethau meddygon, a hynny y tu allan i oriau. Mae clinigau iechyd rhyw yn parhau i gael eu darparu gan y tîm gofal iechyd gan gyfathrebu gydag arbenigwyr lle bo gofyn.

### 6.2 Gofal iechyd corfforol

6.2.1 Nid oes cyfleuster cleifion mewnol yng Ngharchar Abertawe. Mae dynion y mae angen triniaeth ysbyty arnynt yn mynd i ysbytai lleol. Mae Meddyg yn ymweld yn ddyddiol.

6.2.2 Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd carcharorion yn cael mynd am apwyntiadau meddyg, deintydd ac optegydd. Roedd amseroedd aros am apwyntiadau arferol gyda'r meddyg, y deintydd a'r optegydd rhwng pedair a chwe wythnos.

6.2.3 Mae gan y tîm gofal iechyd lwyth gwaith uchel oherwydd bod gan nifer o garcharorion anghenion iechyd cymhleth ac mae angen meddyginiaeth arnynt. Maent yn sgrinio carcharorion newydd wrth iddynt gyrraedd, yn ymwneud â'r broses ACCT ac yn ymateb i achosion meddygol brys yn y carchar. Ym marn y Bwrdd, maent ynparhau i roi gwasanaeth dibynadwy, gyda dynion yn cael mynediad amserol i ofal iechyd.

6.2.4 Fel y datganwyd yn flaenorol, nid oes cyfleuster ar gyfer cleifion mewnol ond ymddangosai fod y gwaith rheoli apwyntiadau ysbyty allanol yn foddhaol, gyda darpriaeth amserol a digonol.

6.2.5 Cafodd y rhan fwyaf o faterion a gyfeiriwyd at yr IMB eu datrys yn foddhaol ac mae staff gofal iechyd yn gymwynasgar wrth roi sylw i faterion y bydd y Bwrdd yn dod â nhw atynt. Fodd bynnag, ymdrinnir â'r holl gwynion ffurfiol gan y bwrdd iechyd lleol, trwy ei weithdrefnau mewnol ac ni fyddir yn rhannu'r canlyniadau gyda'r IMB. Cred y Bwrdd fod y difffyg tryloywder hwn yn wendid sylweddol yn ei allu i fonitro gwasanaethau gofal iechyd yn effeithiol.

6.2.6 Gall lefelau staffio gofal iechyd fod yn heriol, yn enwedig felly adeg gwyliau neu pan fo salwch. Mae'n bwysig cynnal lefel foddhaol o ddarpariaeth i sicrhau na cheir effaith andwyol ar drefn y carchar.

### 6.3 Iechyd meddwl

6.3.1 Mae'r tîm mewngymorth iechyd meddwl a'r tîm ymyrraeth creisis gofal sylfaenol yn gweithio'n barhaol o Garchar Abertawe. Maent yn ymwneud â gwiriadau

gofal a gwahanu ac yn mynd i adolygiadau ACCT. Mae aelodau o'r tîm craidd yn sefyll i mewn dros y timau hyn pan fo gofyn.

6.3.2 Fel yr amlinellir yn adran 5.2.4 o'r adroddiad, mae'r Bwrdd yn parhau'n bryderus ynghylch nifer y dynion sydd â chyflyrau iechyd meddwl heriol a difrifol ac a gaiff eu dal yn y CSU am gyfnodau estynedig oherwydd nad oes llety amgen priodol ar gael. Tra bo staff y carchar yn gwneud pob ymdrech i gwrdd ag anghenion yr unigolion hyn, nid oes ganddynt yr hyfforddiant na'r adnoddau arbenigol gofynnol i wneud hyn yn ddigonol.

### 6.4 Gofal cymdeithasol

6.4.1 Roedd y panel diogelu'n cynnwys rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Parhaodd y sefydliad i sicrhau ei fod yn cynnal cysondeb gofal i'r rhai hynny y bu'n destun ymyrraeth y gwasanaethau cymdeithasol, yn unol â goblygiadau cyfreithiol. Roedd y paneli'n adolygu'r holl gyfeiriadau pob chwarter a châi hynt cyfeiriadau eu dilyn.

6.4.2 Gall sgrinio ar gyfer materion diogelu yn y dderbynfa dynnu sylw at y cyfryw faterion ac yna gellir cyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol. Caiff carcharorion hŷn eu hystyried am gyfeiriad yn awtomatig.

### 6.5 Ymarfer, cyfundrefn

6.5.1 Yn ystod y cyfnod adrodd, parhaodd y ddarpariaeth ymarfer ar lefelau arferol gan barhau i gydymffurfio â safonau cenedlaethol. Fodd bynnag, roedd cynnydd yn nifer y ceisiadau'n nodi nad oedd modd cael ymarfer. Bydd yr IMB yn parhau i fonitro hyn.

### 6.6 Adsefydlu yn sgil alcohol a chyffuriau

6.6.1 Cyflawnodd y gwasanaeth integredig camddefnyddio sylweddau, a ddarperir gan Dyfodol, ymyraethau seicogymdeithasol a darparodd Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wasanaethau clinigol hefyd. Câi carcharorion oedd newydd gyrraedd ac oedd â phroblemau alcohol a chyffuriau eu hadnabod yn brydlon a chawsant asesiad a chefnogaeth gan y tîm gofal iechyd sylfaenol.

6.6.2 Parhaodd y rhaglen adfer o gaethiwed 12 cam i gael croeso da yn ystod y cyfnod adrodd, gydag adborth cadarnhaol ynghylch y canlyniadau yr adroddwyd arnynt. Roedd y tîm gofal iechyd yn rhan o'r gwaith cynllunio cyn-rhyddhau oedd yn canolbwyntio ar atal llithro'n ôl, lleihau niwed i'r eithaf a pharhau gyda thriniaeth os oes gofyn, gyda chyfeirio at wasanaethau cymunedol.

6.6.3 Yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf, arbrofodd y tîm gofal iechyd, mewn partneriaeth â'r carchar, â chynllun i roi naloxone (cyffur sy'n gwrthdroi gorddos opioid yn gyflym) i ddynion a gâi eu rhyddhau. Parhawyd gyda'r cynllun hwn a bydd pob dyn a asesir yn risg uchel yn cael y feddyginiaeth pan gaiff ei ryddhau.

### 6.7 Sgiliau meddal

6.7.1 Mae'r elusen Ymddiriedolaeth Gofal a Chyngor Carchardai (PACT) yn parhau i gynorthwyo teuluoedd i gynnal perthynas tra byddant yn y carchar. Mae'r tîm yn cynnig ystod o gymorth emosiynol ac ymarferol cyn yr ymweliadau cymdeithasol, yn ystod yr ymweliadau hyn ac ar eu hôl. Cynllun cymharol newydd a gaiff ei weithredu yw darparu 'ymweliadau distaw', mewn ystafelloedd llai â niferoedd cyfyngedig. Mae staff PACT wedi rhoi gwybod i'r Bwrdd fod yr ymweliadau hyn yn amhrisiadwy i blant

gofidus neu sydd wedi'u llethu gan amgylchedd prysur a swnllyd y brif neuadd ymweld. Mae'r cynllun hwn yn helpu i gynnal cyswllt teuluol mewn lleoliad mwy cyfforddus a phlentyn-gyfeillgar. Mae adborth teuluoedd wedi bod yn gadarnhaol.

6.7.2 Mae gan yr holl garcharorion y cyfle i fynd i'r gampfa ac mae nifer uchel yn y carchar yn mynd yno. Cynhelir sesiynau penodedig yn y gampfa yn rheolaidd i'r rhai dros eu 50. Ymhlith gweithgareddau ychwanegol wedi'u teilwrio i'r grŵp oedran hwn mae clwb gwyddbwyll yn ystod misoedd y gaeaf a bowlio yn yr haf.

6.7.3 Mae'r Bwrdd yn falch o weld fod cysylltiadau cryf wedi'u sefydlu rhwng y carchar a'r gymuned leol. Comisiynwyd staff a charcharorion yn y gweithdai amlsgiliau gan y Lleng Frenhinol Brydeinig, cangen Dinas Abertawe, i ddylunio a chynhyrchu arddangosfa ar gyfer yr Ardd Goffa, y tu allan i Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ar gyfer Sul y Cofio. Fel rhan o'r prosiect, bu iddynt greu 15 silẃet o faint cyflawn yn cynrychioli personél y lluoedd arfog, gan arwain at arddangosfa trawiadol ac ystyrlon. Mae hwn yn gyfle gwych i garcharorion gymryd balchder yn eu gwaith a rhoi yn ôl i'r gymuned leol.

6.7.4 Mae'r Bwrdd yn falch i weld fod Carchar Abertawe wedi ymrwymo i gefnogi llesiant staff. Mae adborth arolygon staff yn helpu i lunio'r rhaglen ddigwyddiadau, yn eu plith weithgareddau megis sesiynau coffi a sgwrs, bingo a nofio.

# 7. Cynyddu ac Adsefydlu

## 7.1 Addysg, llyfrgell

### Addysg

7.1.1 Cyn y cyfnod adrodd, yng Ngorffennaf 2023, penodwyd pennaeth addysg, sgiliau a gwaith goruchwylio gweithgaredd pwrpasol a pharhau gydag arweinyddiaeth i addysg yn ystod absenoldeb tymor hir y pennaeth dysgu a sgiliau.Fodd bynnag, golygodd pwysau ehangach ar staffio fod  cynnal yr ystod lawn o ddarpariaeth addysg ar draws 2023 yn heriol.Dychwelodd y pennaeth dysgu a sgiliau yn 2024 ac ailgydio yng ngwaith rheoli'r gwasanaeth yn  uniongyrchol. Yn ystod y cyfnod adrodd, cafodd dau athro eu recriwtio i gefnogi sgiliau angenrheidol a phenodwyd dau reolwr rhan-amser i gefnogi gwaith sicrhwydd amser a rhannu arfer gorau.

7.1.2 Mae carchar Abertawe yn darparu ystod eang o raglenni dysgu a sgiliau, gyda chymwysterau gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig, yn cynnwys Agored, GQA, AIM a BICS. Mae darpariaeth dysgu a sgiliau craidd yn cynnwys:

- Sgiliau hanfodol, yn cynnwys llythrennedd a rhifedd.
- Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (ESOL).
- Bod yn barod am waith ac uwchsgilio (e.e. arlwyo, adeiladu a glanhau).
- Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (ICT)

7.1.3 Mae strategaeth ddarllen yn ei lle ac mae ystod o gymwysterau galwedigaethol ar gael, yn eu plith BICSc, amlsgiliau, CSCS, Pasbort Bwyd (a nodwyd yn 5.1.5) a hyfforddi ymarfer Lefel 1. Dibynna dosbarthiadau atodol ar gyllid trydydd sector a olyga na chaiff y rhan hon o'r cwricwlwm ei chefnogi cystal. Er enghraifft, nid yw'r dosbarth cerdd 'changing tunes', a fu unwaith yn llwyddiant, wedi'i gynnal ers tro er bod gitars yn parhau i gael eu benthyca i garcharorion.

7.1.4 Hyrwyddir iaith a diwylliant trwy weithgareddau yn ystod y cyfnod adrodd, yn cynnwys Eisteddfod, tra bo'r rhaglen COMPASS ( rhaglen datblygiad personol a lles) hefyd yn cynnig cyfleoedd i archwilio ymwybyddiaeth diwylliannol, gwerthoedd a chredoau. Mae COMPASS hefyd yn ymwneud â phynciau megis camddefnyddio sylweddau a rheoli straen, yn darparu rhaglen mentora cymheiriaid ac yn cynnig cymorth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

7.1.5 Arweinia rheolwr cymorth niwroamrywiaeth ar gwrdd ag anghenion y rhai hynny ag ADY ac mae'n goruchwylio darpariaeth ehangach niwrowahaniaeth ar draws y carchar. Yn ogystal â gwasanaethau llesiant, mae'r 'harbwr' niwroamrywiaeth yn cynnig sesiynau dosbarth ac allgymorth i'r carcharorion y mae'n anodd eu cyrraedd a'r rhai bregus na fyddai, fel arall, o bosibl, yn cymryd diddordeb mewn rhaglenni dysgu.

7.1.6 Cefnogir carcharorion i ddysgu yn eu celloedd ar gyfer Lefel Mynediad 1 i Lefel 2 trwy'r rhaglen allgymorth llesiant. Mae llwybrau mwy heriol i symud ymlaen i Lefel 4 ac ymlaen i ddysgu o bell yn bodoli hefyd. Fodd bynnag, mae demograffeg carchar yn cyfyngu ar ystod y cyrsiau addysgol y gellir eu cyflawni. Mewn ymateb, mae'r tîm wedi canolbwyntio ar wneud y cwricwlwm yn fwy hyblyg i gyd-fynd yn well ag anghenion y farchanad lafur, datblygu dysgu unedol sy'n cefnogi'n well ddynion â dedfrydau byrrach neu y mae trosiant uwch o garcharorion yn cael effaith arnynt.

Mae model math prentisiaeth wedi'i gyflwyno yn y gweithdai, sy'n cynnig dysgu digidol a chymwysterau'n -ymwneud â diwydiant Derbyniodd yr adran addysg, hefyd, wobr effaith genedlaethol gan AIM mewn cydnabyddiaeth o'i defnydd arloesol o e-ddysgu ar -liniaduron-Coracle. At hyn, mae'r bwrdd cynghori cyflogaeth yn parhau i gryfhau cysylltiadau gyda chyflogwyr lleol ac yn cyflenwi deallusrwydd-y farchnad lafur sy'n helpu i lywio a llunio datblygiad y cwricwlwm.

7.1.7 Er na wnaethom sylw ar y gwasanaeth addysg yn ein hadroddiad diwethaf oherwydd y mynd a dod sylweddol yn yr adran yn 2023, roeddym yn bryderus bod angen canolbwyntio mwy ar roi sylw i reolaeth er mwyn gwella'r isod:.

- safon a phrydlondeb sefydlu
- Data gweithgareddau a rheoli gwybodaeth
- Neilltuo a phresenoldeb ESW (addysg, sgiliau a gwaith) .

7.1.8 Gwelwyd cynnydd yn ystod y cyfnod adrodd, gyda chynllun gwella o safon yn ei le er mwyn parhau i ganolbwyntio ar feysydd allweddol a rhoi sylw i unrhyw argymhellion a gyfyd o adolygiadau ansawdd, arolygu neu reoliadol. Nodwn, yn benodol:

- Safle well ar y rhestr aros am sesiwn sefydlu.
- Fformatau newydd ar gyfer gwybodaeth am sefydlu, y mae disgwyl iddynt gael eu cwblhau ym Mehefin 2025, yn ymwneud â bywyd yn y carchar, swyddi a chyflogau, llwybrau cyflogaeth a'r cyrsiau a'r hyfforddiant sydd eu hangen.
- Dull cydweithredol yn y bwrdd llafur i gysoni addysg a hyfforddiant, cyflogaeth mewn carchar a nodau swyddi tymor hir.
- Cynlluniau datblygu personol cywirach a ddefnyddir i nodi anghenion dysgu a chynllunio camau cynnydd, gyda chynllun arbrofol ar gyfer gwneud y wybodaeth yn fwy hygyrch yn electronaidd, yn cynnwys ar drosglwyddo carcharorion.
- Swyddogaeth a dull gweithredu 'gweithgareddau' fel bod mwy o garcharorion yn cymryd y lleoedd sydd ar gael ar gyfer sesiynau sefydlu a gweithgaredd pwrpasol.
- Rheolaeth well ar ddata, gan gofnodi a dadansoddi'n well bresenoldeb a rhesymau dros beidio â bod yn bresennol.
- Mae arolwg ar y gweill yn Ebrill 2025 o'r rhai nad oes ganddynt ddiddordeb mewn addysg a hyfforddiant.

7.1.9 Nodwn, hefyd, gorff sylweddol o waith, dan arweiniad yr athro Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (ESOL), er mwyn rhoi sylw gwell i anghenion iaith y rhai hynny nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Nid oedd y gwaith hwn wedi'i gwblhau eto erbyn diwedd y cyfnod adrodd ond, mae'n cynnwys cyfieithiad o wybodaeth i'r rhai sy'n cyrraedd y dderbynfa, dewisiadau'r fwydlen, sesiwn sefydlu gyffredinol ac asesiad cyffredinol o sefydlu ac addysg ('Do-it-Profiler'). Ceir, hefyd, gynlluniau i ddatblygu fforwm carcharorion sy'n wladolion tramor a sesiwn sefydlu addysg ar wahân i'r rhai nad ydynt yn siarad Saesneg.

Dengys arweinyddion a staff ymrwymiad i gwrdd ag anghenion carcharorion, gan ganolbwyntio ar wella a rhoi gofal, cefnogaeth ac arweiniad i ddysgwyr. Caiff addysg, sgiliau a gwaith eu cymell trwy, er enghraifft, gael mwy o amser y tu allan i'r gell a chymdeithasu gyda'r nos. Yn ystod ein hymweliadau, bu i ni arsylwi staff yn annog dysgwyr a chyfraniad gwerthfawr mentoriaid cymheiriaid hyfforddedig. Cynllunir,

hefyd, hyfforddiant misol i staff trwy gydol y flwyddyn i gefnogi staff i ddysgu a datblygu, ochr yn ochr â gwaith ehangach sicrwydd ansawdd, megis arsylwi gwersi.

**Llyfrgell**

7.1.10 Caiff y gwasanaeth llyfrgell, a ddarperir gan Gyngor Abertawe, ei gynnal gan ddau lyfrgellydd penodedig rhan-amser. Caiff y ddau lyfrgellydd eu cynorthwyo gan ddau swyddog, sy'n garcharorion hyfforddedig (carcharorion y gellir ymddiried ynddynt ac sy'n cymryd gwaith i roi gwasanaeth sy'n cyfrannu at gynnal y carchar) a chaiff y gwasanaeth, hefyd, gefnogaeth dda y staff. Yn ystod ein hymweliadau, mae brwdfrydedd ac ymrwymiad y llyfrgellwyr a'r swyddogion wedi bod yn amlwg iawn.

7.1.11 Caiff y llyfrgell ei hyrwyddo'n dda a daw nifer dda yno, gydag adrodd i'r rheolwyr ar ddata ymweliadau a dosbarthu llyfrau a DVDs yn digwydd yn rheolaidd . Dengys y data y bu cynnydd yn y defnydd a wneir o'r llyfrgell yn y blynyddoedd diwethaf, gyda chynnydd cynaliadwy mewn ymweliadau. Yn ystod y cyfnod adrodd 18 mis, Tachwedd 2023 i Ebrill 2025, cafodd 12,092 o lyfrau/DVDs eu dosbarthu, bu 4,411 o ymweliadau gan adeiniau a gweithdai a 19,329 o ymweliadau o addysg. Mae hyn yn cymharu â 13,303 o lyfrau/DVDs a ddosbarthwyd, 3,662 o ymweliadau gan adeiniau a gweithdai a 18,882 o ymweliadau o addysg am y 18 mis blaenorol.

7.1.12 Roedd y llyfrgell yn amgylchedd croesawgar, gydag ystod o adnoddau a gwasanaethau i annog darllen er pleser a chefnogi dysgu, datblygiad personol, hunanofal a llesiant. Mae cofrestru gyda'r llyfrgell yn gam allweddol yn y broses sefydlu  ac mae gan y gwasanaeth berthynas agos a chynhyrchiol gyda'r tîm addysg. Mae'r elusen Shannon Trust yn darparu detholiad da o lyfrau i ddarllenwyr newydd, gyda chymorth gan fentoriaid cymheiriaid hyfforddedig. Mae'r llyfrgell, hefyd, yn cynnig llyfrau sain a phrint bras ar gyfer darllenwyr â nam ar eu golwg, yn ogystal â detholiad o lyfrau Gymraeg ac ieithoedd tramor.

7.1.13 Mae cyflenwad o lyfrau stoc sydd wedi'u tynnu o lyfrgelloedd ar gael ar yr adeiniau ac mewn gweithdai ar gyfer carcharorion sy'n methu-neu'n anfodlon ymweld â'r llyfrgell. Mae modd gwneud ceisiadau penodol ac mae system ceisiadau rhynglyfrgellol yn eu lle. Mae cyhoeddiadau gofynnol, megis *Archbold's Criminal Pleading*, *Evidence and Practice*, hefyd ar gael yn rhwydd.

7.1.14 Nodwyd bod y llyfrgell yn enghraifft o ymarfer da mewn gweithio'n gydweithredol ac mewn partneriaeth yn 2022 ac, ym marn y Bwrdd, mae'n parhau i ddangos dull gweithredu rhagweithiol ac ymgysylltiedig o ran cyflwyno gwasanaeth. Yn ystod 2023, dathlodd y gwasanaeth ei benblwydd yn[75] gyda digwgyddiadau misol wedi'u hanelu at wella llythrennedd a llesiant. Mae digwyddiadau rheolaidd wedi parhau yn y cyfnod adrodd, yn cynnwys cystadleuaethau; dathliadau; sesiynau iechyd meddwl a llesiant; grŵp dros 50 wythnosol a heriau darllen sy'n denu tystysgrif a nodyn achos cadarnhaol. Ym Mai 2024, Abertawe oedd y llyfrgell garchar gyntaf i'w chynnwys yn y wobr Llyfrgell Noddfa, a'i hennill, (yn rhan o Lyfrgelloedd Abertawe). Yn Ebrill 2025 cyflwynwyd system fenthyca gyfrifiadurol.

## 7.2 Hyfforddiant galwedigaethol, gwaith

7.2.1 Ceir ystod o gyfleoedd cyflogaeth i garcharorion ar yr adeiniau ac oddi arnynt. Ymhlith y rhai sy'n gweithio ar yr adeiniau mae glanhawyr, barbwyr, mentoriaid cymorth a chyfoedion a gweithwyr y cownter arlwyo. Ymhlith gwaith a hyfforddiant oddi ar yr adeiniau, mae rheoli gwastraff, teilwra, amlsgiliau, BICS (British Institute of

Cleaning Science, sef y prif gorff dyfarnu a hyfforddi ar gyfer cymwysterau glanhau proffesiynol), golchi dillad, y gweithdy V-Aid (lle mae carcharorion yn cynhyrchu parseli cymorth brys ac yn cymryd rhan mewn hyfforddiant achrededig a gyflawnir mewn partneriaeth â'r elusen V-Aid), y llyfrgell, y gegin a'r caffi Mugshot (sy'n parhau i fod yn brysur iawn). Mae'rhyb cyflogaeth yn parhau i greu cysylltiadau gyda chyflogwyr i sicrhau fod y cyrsiau'n cynnig gobaith realistig i ddynion gael gwaith pan gânt eu rhyddhau. Rhaid nodi mai prin yw'r lle a bod angen blaenoriaethu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant.

7.2.2 Ar gyfartaledd, mae 77% o garcharorion yn cymryd rhan mewn gweithgaredd pwrpasol bob wythnos. I'r rhai hynny mewn cyflogaeth, caiff presenoldeb ei fonitro'n ofalus, gyda data'n cael eu hadolygu mewn cyfarfodydd briffio bob bore ac mewn bwrdd amlddisgyblaethol wythnosol sy'n dilyn hynt patrymau presenoldeb, tueddiadau cyfeirio a lefelau ymgysylltu, yn enwedig ymhlith oedolion ifanc y cyfeirir atynt yn Cymru'n Gweithio.Mae cynllun cymhelliant, 'carcharor-weithiwr y mis', wedi'i gyflwyno i annog carcharorion i gymryd rhan trwy gael bonws misol. Nid yw effaith hyn wedi'i werthuso eto. Mae hyfforddwyr ac athrawon yn parhau i ddangos ymrwymiad wrth iddynt gydnabod rôl addysg a hyfforddiant mewn gostwng aildroseddu.

## 7.3 Rheoli troseddwyr, symud ymlaen

7.3.1 Oherwydd pwysau ar leoedd yn y carchar, mae staff yr uned rheoli troseddwyr (OMU) wedi gorfod addasu i ffyrdd newydd o weithio. Mae cyflwyno'r cynllun ailgategoreiddio tebygol dros dro (TPRS) a mesur rhyddhau'n gynnar y ddedfryd benodol safonol yn hydref 2024 wedi cael effaith sylweddol ar yr OMU, yn ogystal ag ar gyflawni rhaglenni a hyfforddiant yng Ngharchar Abertawe. Mae nifer y trosglwyddiadau allan o'r carchar hefyd wedi cynnyddu'n gynt ac yn gynt ac mae trosiant uchel y carcharorion yng Ngharchar Abertawe yn cael effaith ar broses Llawlyfr Diogelu'r Cyhoedd[5](a ddefnyddir i reoli a gostwng perygl i'r cyhoedd yn ystod cyfnod carcharor yn y ddalfa a phan gaiff ei ryddhau).Fodd bynnag, rhaid nodi mai ychydig iawn o geisiadau gan garcharorion sy'n cwyno am yr OMU.

7.3.2 Mae rheolwyr troseddwyr mewn carchardai wedi cael hyfforddiant sylweddol i sicrhau eu bod yn cyflwyno sesiynau un i un gyda'r dynion. Caiff ystod o ymyraethau eu cyflwyno. Yn eu plith mae: Choices for Change (canolbwyntio ar feddwl ac agweddau i'r rhai dan 25); Stepping Stones (meddwl gwybyddol i'r rhai dros 25); Respectful Relationships (rhaglen camdriniaeth ddomestig a gyflwynir un i un); DRIVE (ymyrraeth trwy'r giât i ddynion y nodir eu bod yn risg uchel o gyflawni camdriniaeth ddomestig). Agorwyd 33 achos ers gweithredu'r rhaglen DRIVE yn 2023.

7.3.3 Yng ngwanwyn 2025 penodwyd swyddog mechnïaeth yr oedd disgwyl mawr am y swydd a dechreuodd yn ei swydd tuag at ddiwedd y cyfnod adrodd.

## 7.4 Cyswllt teuluol

[5]Rhoddwyd y gorau i'r Llawlyfr Diogelu'r Cyhoedd PSI 18/2016 ym Mai 2025 Fe'i disodlwyd gan Fframwaith Polisi Diogelu'r Cyhoedd y Carchar a gyhoeddwyd yn Nachwedd 2024, gyda chyfnod gweithredu chwe mis.

7.4.1 Mae'r tîm gostwng aildroseddau yn rhagweithiol ac yn ymdrechu i sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i gyswllt teuluol. Cynhelir fforymau teuluol, ynghyd ag arolygon rheolaidd sy'n llywio cynlluniau ac arfer.

7.4.2 Mae'r llwybr cyfeirio ysgolion, i gefnogi teuluoedd fel rhan o'r cynllun 'dedfryd gudd', wedi arwain at gynnydd mewn cyfeiriadau at yr Ymddiriedolaeth Gofal a Chyngor Carchardai (PACT). Cyflwynir hyfforddiant i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant gan yr ymarferydd plant a pherson ifanc.

7.4.3 Mae PACT yn darparu sesiynau grŵp llai a phreifat i'r rhai hynny ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan bob plentyn a ddaw i'r sesiynau hyn 'fy mhasbort ymweld', i hysbysu staff o'u hanghenion ac adran yn rhestru'r teganau synhwyraidd/ffidlan sy'n helpu i reoleiddio'u hemosiynau. Aeth pedwar teulu i'r sesiwn ymweld ADY ddiweddar. Mae ymweliadau ADY preifat hefyd yn cael eu trefnu. Trefnwyd achos busnes i brynu citiau synhwyraidd cludadwy. Bydd y rhain yn cael eu defnyddio ar gyfer ymweliadau distaw ac ymweliadau ADY a byddant yn yr ystafell PACT.

7.4.4 Yn Hydref 2024, cynhaliodd PACT ei ddiwrnod cyntaf teulu rhyngweithio ag anifeiliaid (addaw â charcharorion a'u teuluoedd y tu allan i'w hawl statudol i ymweliadau cymdeithasol, ynghyd mewn lleoliadau mwy anffurfiol). Cafwyd adborth gwych yn y fforwm carcharorion a gynhaliwyd yn Rhagfyr 2024.Cymerodd pedwar ar ddeg o deuluoedd ran yn y diwrnod Nadolig i deuluoedd. Derbyniodd yr holl blant roddion a roddwyd gan elusen a gwnaed trefniadau i blant gyflwyno anrheg i'w tad, llun ar ffurf addurn Nadolig.

7.4.5 Yn Rhagfyr 2024, cynhaliwyd digwyddiad llesiant dwy awr i ddynion nad ydynt yn cael ymweliadau cymdeithasol. Darparwyd diodydd a byrbrydau a daeth sawl asiant cymorth yno, yn cynnwys gwestai arbennig o'r elusen, Fighting Homelessness. Rhoddwyd gwasanaeth aciwbigo a gwiriwyd iechyd pobl. Roedd adborth y rhai oedd yno'n gadarnhaol iawn. Mae hyn wedi datblygu ymhellach ac, yn sgil hyn, wedi'i gynnal bob dau fis.

7.4.6 Yn ystod y cyfnod adrodd, cyflwynodd y tîm PACT fforymau teuluol (coffi a sgwrs). Cynhelir y rhain bob chwe wythnos ac maent yn llwyddiannus iawn. Yn sgil adborth byddir yn sefydlu cynllun llesiant. Cynhaliwyd sesiwn coffi a sgwrs, lle trafododd 10 teulu gyfnewid dillad.

### 7.5 Cynllunio adsefydlu

7.5.1 Mae'r galw am wasanaethau adsefydlu'n parhau i fod yn uchel oherwydd trosiant carcharorion. Er gwaethaf yr heriau a wyneba'r tîm, yn enwedig yn wyneb newidiadau diweddar i ddedfrydau, ceisia'r staff weld pob dyn cyn pen tri diwrnod iddo gyrraedd Carchar Abertawe.

7.5.2 Wedi i'r deilydd swydd blaenorol ymddeol, penodwyd rheolwr newydd i arwain y tîm adsefydlu yn hydref 2024. Hefyd yn 2024, dechreuodd staff adsefydlu weithio mewn ardaloedd unedau penodol cyflawni'r gwasanaeth prawf. Mae'r newid wedi ei gwneud yn bosibl iddynt ddatblygu perthynas weithio gryfach gyda chydweithwyr cymunedol, gan wella'r gyfnogaeth a roddir i ddynion wedi iddynt gael eu rhyddhau.

7.5.3 Mae'r bwrdd cyflogaeth a rhyddhau yn cyfarfod yn wythnosol i sicrhau y cydlunir y gwaith cynllunio cyn-rhyddhau, gyda phartheriaethau asiantaethau cryf ag asiantaethau allweddol, yn cynnwys presenoldeb yr Adran Gwaith a Phensiynau,

Cymru'n Gweithio, Dyfodol a'r gwasanaethau Adsefydlu, Prawf a gofal iechyd. Rhoddir cyflwyniad ymlaen llaw, sy'n amlinellu pwy fydd yn bresennol a pha wybodaeth y gall carcharorion ddisgwyl ei chael. Profwyd i hyn fod yn ddefnyddiol iawn ac mae'n fodd i garcharorion baratoi ymlaen llaw a dod ag unrhyw gwestiwn a fyddo ganddynt.

7.5.4 Mae'r tîm adsefydlu'n cynnal fforymau i oedolion ifanc a'r rhai sy'n gadael gofal, gan gynnig cymorth wedi'i dargedu a helpu i greu gwytnwch yn y grŵp hwn. Dechreuodd cwrs rheoli arian yn Ionawr 2025, gan flaenoriaethu mynediad i oedolion ifanc. Nodwyd bod grwpiau straen a phryder hefyd yn angenrheidiol. Mae'rtîm wedi sefydlu cyswllt gyda Route 16, y gwasanaeth gadael gofal yng Nglyn-nedd Port Talbot i bobl ifanc oed 14-25. Mae cysylltiadau, hefyd, yn cael eu datblygu gyda'r Rees Foundation, elusen sy'n cynnig cymorth i'r rhai hynny â phrofiad o ofal.

7.5.5 Mae cael hyd i lety cynaliadwy i garcharorion pan gânt eu rhyddhau'n parhau i fod yn hynod heriol. Mae darparwyr y Gwasanaethau Adsefydlu a Gomisiynwyd (CRS), y Forward Trust a'r St Giles Trust, yn gweithio i sicrhau fod llety ar gael i'r rhai sy'n gadael y ddalfa.Mae'r cynllun rhyddhau'n gynnar wedi gwneud hyn yn anodd iawn, gyda rhai dynion yn cael eu rhyddhau heb lety.

7.5.6 Trist gorfod dweud y bu gŵr bonheddig farw yn ystod y cyfnod adrodd hwn, bum diwrnod wedi iddo gael ei ryddhau heb lety. Roedd yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf yn hynod feirniadol o broses adsefydlu'r carchar, gan ddyfynnu '*dryswch ynghylch pwy oedd yn gwneud y cyfeiriad.*' Fel y manylir yn adran 4.2.3 o'r adroddiad hwn, adolygwyd polisïau a phrotocolau a rhoddwyd sylw i'r argymhellion yn adroddiad yr Ombwdsmon i helpu i sicrhau na wnaiff hyn fyth ddigwydd eto.

7.5.7 Mae'r arbenigwr tai rhanbarthol yn casglu data perthnasol ac yn cyflwyno ystadegau llety misol i'r carchar.Ymhlith y data a gofnodir mae'r gyfran o unigolion a gaiff lety'r noson gyntaf wedi iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar. Dangosodd ciplun o Dachwedd 2024 fod 84.61% o garcharorion a ryddhawyd y mis hwnnw wedi cael llety'r noson gyntaf (14% mewn llety rhent preifat; 44% gyda theulu neu ffrindiau a 41% mewn llety rhent cymdeithasol). Mewn ciplun tebyg o Ragfyr 2024, roedd gan 76.74% o'r rhai a ryddhawyd lety ar eu noson gyntaf.

7.5.8 Gweithredwyd yr arbrawf Gwario i Arbed, gydag awdurdodau lleol Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Chasnewydd yn gweithio ochr yn ochr â'r arbenigwr tai rhanbarthol i edrych i mewn i ffyrdd o gynnal tenantiaethau i garcharorion a ddedfrydwyd. Noda'r tîm adsefydlu yng Ngharchar Abertawe ddynion sydd â thenantiaethau yn yr ardaloedd hyn a rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i'r arbenigwr tai rhanbarthol fydd, yna, yn cysylltu â'r awdurdod lleol perthnasol pan for ffurflen gyfeirio wedi'i llofnodi. Yr hyn sy'n siomedig yw nad yw awdurdod lleol Abertawe wedi cymryd rhan yn y cynllun arbrawf hwn hyd yn hyn.

7.5.9 Datblygwyd cysylltiadau gyda Fighting Homelessness CIC (cwmni diddordeb cymunedol), ac mae aelod o'u tîm wedi bod mewn digwyddiadau codi ymwybyddiaeth yn y carchar. At hyn, mae aelod o dîm y gaplaniaeth wedi gwneud cysylltiadau cadarnhaol gydag eglwysi a sefydliadau lleol, sydd wedi cynnig cymorth ymarferol, megis sachau cefn a sachau cysgu, yn ogystal â rhyw gymaint o gymorth wedi i garcharorion gael eu rhyddhau.

**Cyflogaeth ar ôl rhyddhau**

7.5.10 Mae'r hyb cyflogaeth wedi sefydlu partneriaeth gref gyda'r bartneriaeth ranbarthol dysgu a sgiliau (RLSP) ac mae'n cydweithio â hi i yrru twf economaidd rhanbarthol a chyfleoedd cyflogaeth (gweler 7.1 am ragor o fanylion).

7.5.11 Mae dau hyfforddwr gwaith carchar o'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn gweithio o'r carchar. Maent ar gael i ateb unrhyw ymholiad a fyddo gan y dynion ynghylch budd-daliadau pan gânt eu rhyddhau a cheisiant yn frwd newid y meddylfryd 'os ydych ar fudd-daliadau, yna allwch chi ddim gweithio'. Mae un hyfforddwr gwaith yn gweithio o'r hwb gyflogaeth bum diwrnod yr wythnos ac mae ganddo rôl hanfodol yn nodi dynion sy'n gymwys ac yn barod am unrhyw gwrs cyflogaeth a gynhelir yn y carchar.

7.5.12 Daw cynghorydd gyrfaoedd Cymru'n Gweithio i'r carchar bedwar diwrnod yr wythnos. Cynhelir sgyrsiau un i un gyda'r dynion, yn trafod eu dyheadau, pa sgiliau sydd ganddynt, eu hanes gwaith blaenorol a'r hyfforddiant y gallent ei gael trwy gyllid ReAct+ (rhaglen gymorth wedi'i chynllunio i helpu pobl ddychwelyd i'r gwaith yn gyflym trwy gael gwared â rhwystrau i gyflogaeth) a fyddai'n eu helpu i sicrhau cyflogaeth pan gânt eu rhyddhau. Dengys sampl o'r data y cefnogodd Cymru'n Gweithio 68 o garcharorion yn ystod Awst 2024. Carchar Abertawe oedd y carchar cyntaf i dreialu cyllid ReAct+ ac mae wedi bod mor llwyddiannus fel ei fod wedi'i gyflwyno i holl garchardai Cymru.

7.5.13 Mae Busnes Cymru'n cynnal gweithdy hunangyflogaeth yng Ngharchar Abertawe bob-dau fis, gan roi i garcharorion wybodaeth ac arweiniad cynhwysfawr i'w helpu i chwilio am waith -hunangyflogaeth pan gânt eu rhyddhau.

7.5.14 Mae cyflogwyr yn mynd i'r carchar bob mis i gyfweld ymgeiswyr sy'n barod am waith tra eu bod yn dal i fod yn y ddalfa, i geiso sicrhau y cânt, gyda gobaith, ddechrau gwaith pan gânt eu rhyddhau. Mae gan y carchar berthynas weithio gref gydag Acorn Recruitment, BMSL, Castell Howell, Regimental Cleaning, Iceland, TUI a Dutch Quarters.

7.5.15 Fforwm amlasiantaeth yw'r bwrdd cynghori cyflogaeth a gynhelir bob dau fis i edrych i mewn i strategaethau ar gyfer gwella canlyniadau cyflogaeth yng Ngharchar Abertawe. Daw'r bwrdd â chynrychiolwyr o wahanol adrannau yn y carchar ynghyd, ochr yn ochr â chyflogwyr allanol a rhanddeiliaid allweddol.

7.5.16 Dengys data yn ystod y cyfnod adrodd fod cyfraddau cwblhau cyrsiau a chyfraddau llwyddiant carcharorion yn cael gwaith ar ol gadael Carchar Abertawe wedi gwella. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd yn gweithio'n agos gyda'r hyb cyflogaeth i sicrhau fod y rhai sy'n gadael carchar yn cael y gefnogaeth briodol yn y dderbynfa y diwrnod y cânt eu rhyddhau.

# 8. Gwaith yr IMB

## 8.1 Ystadegau'r bwrdd

| | |
|---|---|
| Nifer aelodau'r Bwrdd a argymhellir | 12 |
| Nifer aelodau'r Bwrdd ar ddechrau'r cyfnod adrodd | 7 |
| Nifer aelodau'r Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd | 8 |
| Cyfanswm nifer yr ymweliadau â'r sefydliad | 389 |

## 8.2 Ceisiadau i'r IMB

| Côd | Pwnc | Blwyddyn adrodd flaenorol[6] | Blwyddyn adrodd gyfredol[7] |
|---|---|---|---|
| A | Llety, yn cynnwys golchi dillad, dillad, ymolchi | 2 | 6 |
| B | Disgyblaeth, yn cynnwys dyfarniadau, cynllun cymhelliant, sancsiynau | 12 | 17 |
| C | Cydraddoldeb | 0 | 2 |
| D | Gweithgaredd â phwrpas, yn cynnwys addysg, gwaith, hyfforddiant, amser allan o'r gell | 4 | 12 |
| E1 | Llythyrau, ymweliadau, teleffonau, diogelu'r cyhoedd, cyfyngiadau | 5 | 14 |
| E2 | Cyllid, yn cynnwys tâl, arian preifat, arian personol i'w wario | 9 | 4 |
| F | Bwyd a cheginau | 1 | 0 |
| G | Iechyd, yn cynnwys gofal corfforol, meddyliol a chymdeithasol | 22 | 29 |
| H1 | Eiddo yn y sefydliad | 11 | 7 |
| H2 | Eiddo yn ystod trosglwyddo neu mewn cyfleuster arall | 3 | 16 |
| H3 | Ffreutur, rhestr cyfleusterau, catalogau | 5 | 7 |
| I | Rheoli dedfrydau, yn cynnwys cyrffyw cyfyngu i'r cartref, rhyddhau ar drwydded dros dro, parôl, dyddiadau rhyddhau, ailgategoreiddio | 15 | 11 |
| J | Pryderon staff/carcharorion, yn cynnwys bwlio | 25 | 19 |
| K | Trosglwyddiadau | 1 | 3 |
| L | Amrywiol | 3 | 17 |
| | **Cyfanswm nifer y ceisiadau** | **118** | **164** |

[6]Blwyddyn adrodd flaenorol: Tachwedd 2022 i Hydref 2023

[7]Blwyddyn adrodd gyfredolol: Tachwedd 2023 i Ebrill 2025.

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded y Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch inationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deilyddion yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ynhttps://www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiad ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn imb@justice.gov.uk